E.P.C. Welsh Drama Series, No. 9

Ar y Groesffordd

DRAMA GYMRAEG

Mewn Pedair Act.

R. G. BERRY.

CARDIFF:
THE EDUCATIONAL PUBLISHING CO., LTD.

1920

E.P.C. New List of Plays & Dramas
IN ENGLISH AND WELSH.

HELYNT HEN AELWYD (neu HELBUL TAID A NAIN). (*R. Williams.*) 2/- net, post free 2/3.

YR HEN GRYDD (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net. post free 1/2.

THE VILLAGE WIZARD. (*Dr. Naunton Davies.*) 6d. net, post free 8d.

DEWIN Y PENTREF. (*Dr. Naunton Davies.*) 6d. net, post free 8d.

BEDDAU'R PROFFWYDI. (*Professor W. J. Gruffydd.*) 2/- net, post free 2/3.

RUTH. (*Rev. J. J. Williams.*) 1/- net, post free 1/2.

ESTHER. (*Rev. J. J. Williams.*) 1/- net, post free 1/2.

ASGRE LAN. (*R. G. Berry.*) 2/- net, post free 2/3.

AR Y GROESFFORDD. (*R. G. Berry.*) Lord Howard de Walden Prize Drama. 2/- net, post free 2/3.

THE POACHER. (*J. O. Francis.*) 1/- net, post free 1/2.

PONT OREWYN. (*T. E. Ellis.*) Death of Llewelyn Olaf. 1/- net, post free 1/2.

THE BAKEHOUSE. (*J. O. Francis.*) 1/- net, post free 1/2.

CHANGE. (*J. O. Francis.*) Boards, 2/6, post free 2/9. Paper Covers, 2/- net, post free 2/3.

Licences for Public Performance to be obtained from

The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.

John Emyr
Mai 1978 (Heran)

E.P.C. Welsh Drama Series, No. 9.

AR Y GROESFFORDD

DRAMA GYMRAEG

Mewn Pedair Act

Gan

R. G. BERRY

CARDIFF:
THE EDUCATIONAL PUBLISHING CO., LTD.

Rhaid cael caniatâd i chwarae'r ddrama hon. Anfoner ceisiadau at y Cyhoeddwyr.

Copyright under the Copyright Act, 1910.

Licences granted for public performance by the Educational Publishing Co., Ltd. Cardiff.

CYMERIADAU.

Parch. Eifion Harris - -	Gweinidog Seilo.	
Richard Davis (Dic Betsi) -	Tad Nel.	
Jared Jones, saer - - -	Blaenoriaid Seilo.	
Morgan Hopcyn, Siopwr -		
Ifan Wyn, crydd - - -		
Dafydd Elis, postman - -		
Doctor Huws.		
Mr. Blackwell - - -	Gŵr y Plas.	
Harri - - - -	Prentis Jared Jones.	
Nel Davis.		
Marged Harris - - -	Chwaer y Gweinidog	

ACT. I.

Gweithdy'r Saer.

ACT II.

Cegin Dic Betsi.

ACT III.

Study yn Nhŷ'r Gweinidog.

ACT IV.

Gweithdy'r Saer.

Mae ysbaid o ychydig ddyddiau rhwng Act I ac Act II.

Mae ysbaid o flwyddyn rhwng Act II ac Act III, a rhwng Act III ac Act IV.

AR Y GROESFFORDD.

ACT I.

Gweithdy'r Saer.

[*Mae bwrdd hir-gul yn ymestyn gyda'r mur sy gyferbyn â'r edrychwyr. Ar y muriau gwelir ychydig o offer gwaith saer yn grogedig yma ac acw gyda thri neu bedwar o focsis wrth y muriau ar y dde a'r chwith i eistedd arnynt, a naddion ac ysglodion ar y llawr. Arwain y drws sydd ar y chwith i'r tŷ sy'n gysylltiedig â'r gweithdy, a'r un ar y dde i'r heol. Pan gyfyd y llen gwelir y saer yn plaenio planc a'i brentis yn dal un pen i'r planc rhag symud. Drwy'r act hon pan bo hynny'n gyfleus, mae'r saer i'w weld yn brysur gyda rhyw ran neu gilydd o'i waith.*]

JARED (*gan edrych ar y plaen ar ol plaenio ychydig*) : Be fuost ti'n neud a'r plaen yma, Harri ?

HARRI : Plaenio, Mistar.

JARED : Ie, plaenio, wrth gwrs ; mi wyddwn mai nid codi tatws y buost ti hefo fo. Does dim blewyn o fin arno fo rwan beth bynnag. (*Deil ef*

gyferbyn â'i lygaid.) Mae ma dolc ne ddau arno fo hefyd. Estyn y plaen arall na. (*Estynnir ef, a chais* JARED *blaenio, ond yn ofer.*) Fuost ti'n plaenio hefo hwn hefyd, dywed ?

HARRI : Do, am spel, mistar, ond mi drawis yn erbyn rhyw hen hoelan yn y planc ac mi scythris i phen hi.

JARED : Oh, felly wir ! Cofia di o hyn allan ma plaenio coed ac nid hoelion ydi gwaith plaen, Harri bach : prentis o jeinar wyt ti wyddost, ac nid gôf nac injaniar.

HARRI : O'r gora, Mistar, ond mi ddo i'n well prentis mhen tipyn.

JARED : Mi wyddost wrth gwrs fod y gair prentis yn dod o'r gair "pren"—P-R-E-N-T-I-S, un yn gweithio mewn pren, wyddost, dyna darddiad y gair, medde nhw, yn ol y dicsionari.

HARRI : Tybad, mistar ? "Prentis o siopwr" ddwedwn ni yntê ?

JARED : Ie siwr, ond cofia di ma sefyll tu nol i gowntar wedi ei wneud o bren y bydd prentis siopwr : y gwir ydi, ymhle bynnag y cei di brentis, ma na bren heb fod ymhell yn siwr iti.

HARRI : Mi fydd mam yn sôn am brentis o ddoctor, a does na ddim pren yn agos at ddoctor.

JARED : Dull o siarad sy gan dy fam ydi hwnna : prentis o ddoctor ydi doctor ofnatsan o sâl efo'i waith, doctor a phen fel pren ffawydd ne bren

bocs. Ond wastio amser ryda ni rwan : gad i ni olchi arni yn o gwic, achos ma hi'n mynd ymhell ar y dydd. 'Run pryd cofia ystyr y gair prentis wrth usio'r plaen—dojio'r hoelion wyddost, ydi'r gamp i brentis o jeinar. (*Daw* DAFYDD ELIS *y postman i mewn o'r dde efo cadair.*) Helo, Dafydd Elis, wyt ti'n mudo i rywle ?

ELIS : Mae un o goesa'r gadair ma'n rhydd ers plwc byd, Jared, ac mae rhywrai ohonnom yn y tŷ acw'n eiste arni heb gofio, ac i lawr a ni'n glwt i'r llawr. Fu dim ond y dim i Mr. Harris y gweinidog fynd ar i hyd ar garreg yr aelwyd y noson o'r blaen.

JARED : Cato pawb ! peth sad fasa i'r gweinidog newydd gael ei godwm cynta yn dy dŷ di. Ond marcia di ngair i, mae rhywun yn mynd i gael codwm yn y gweithdy ma heno. Diaist i, mi rof Ifan Wyn i eiste arni : watsia di 'rhen grydd yn llyfu'r llawr. Mi gosodwn hi i sefyll y fan yma a golwg mor ddiniwed a'r gloman arni hi. (*Gesyd hi wrth y wal ar y chwith.*) Eiste'n rhywle, Dafydd nes daw'r criw i mewn am scwrs : mae gen i ddrws stabl gŵr y Plas i'w orffen.

ELIS : Dos di ymlaen. Rwy'n credu i mi chwysu digon i nofio man-i-war go lew heddiw wrth fynd a dod, a thrwy ryw anlwc roedd gen i feichiau trymach nag arfer heddiw.

JARED : Ond job go iach, wel di, ydi job postman er hynny, allan yn yr awyr iach drwy'r dydd,

ac ambell i jwg o laeth enwyn a chwlff o fara chaws wrth y ffermydd na, yn lle bod fel fi a dy ben wrth y post drwy gydol y dydd ynghanol shafings a blawd lli. Eiste'n rhywle, ond nid ar y gadair goes glec na. Ifan Wyn gaiff roi i glun i lawr ar honna.

ELIS : Druan o'r hen grydd, wn i ddim sut mae o'n cadw'n ffrindiau a thi ar ol dy holl gastiau.

JARED : Hen bartnars, Dafydd, hen bartnars : Ifan a finnau ddeng mlynedd ar hugain yn ol oedd y ddau lanc smartia'n y dyffryn.

ELIS : Be nath i ti bara'n hen lanc ac yntau'i briodi, Jared ?

JARED : Dyna oedd yn y rhan i hwyrach. (*Daw* MORGAN HOPCYN *y siopwr i mewn yn ei ffedog wen.*) Pa siap sydd ar y siopwr heno ?

HOPCYN : Cyn i mi anghofio Jared, mae un o'r shetars ar y ffenest acw wedi chwyddo neu rywbeth, nei di redeg dy blaen drosti os do i a hi yma fory ?

JARED : Be sydd ar y tacla heddiw ? Rwan jest roedd Dafydd am i mi roi coes ei gadair yn ei lle rwan dyma titha'n gofyn i mi ostwng y chwydd yn dy shetar. Mae'r gweithdy ma'n mynd yn rêl surjary doctor. (*Cenfydd* HOPCYN *yn cyrchu at y gadair.*) Hopcyn ! Biwêr ! Cadw draw oddiwrth y gadair na. Ifan Wyn sy'n mynd i gael ei gaedirio yn y steddfod hon (*chwardd y lleill*). Howld ! dyma sŵn i droed o ! Mor sobr a judge bob copa

ohonoch chi rwan. (*Daw* IFAN *i mewn yn ei ffedog byg-ddu ac yn llewys ei grys.*) Da machgen i am gadw dy gyhoeddiad.

IFAN (*dan fopio'i dalcen*): Brensiach fawr! yn nath hi ddiwrnod chwilboeth heddiw, fechgyn? Roedd hi'n siwr o fod yn crasu ar y brynia na heddiw, Dafydd?

ELIS: Oedd nen tad, on beth am danat ti ar dy sêt grydd?

IFAN: Gwarchod pawb! chês i rioed gletach diwrnod yn fy mywyd yn y gweithdy acw: mi faswn yn tynnu nghroen ac eiste'n f'esgryn, pe gallswn i.

JARED: Go lew di, Ifan! Mi feddyliaist am y deunydd teneuaf yn bosibl ar wrês, achos ti ydi'r creadur mwya croen-deneu'n y wlad. Tyrd, rhen bellen gwyrcrydd, rwyf wedi cadw'r gadair acw i ti yn arbennig. Aros, mae drychfeddwl wedi nharo, ti yw'r bardd cadeiriol, Ifan, a finna ydi'r arch-dderwydd yn d'arwain dros y llwyfan. (*Ymeifl yn ei fraich a rhydd ef i sefyll â'i gefn at y gadair.*) A oes heddwch? (*Etyb y lleill "heddwch."*) Steddwch, Mr. Wyn yng nghadair beirdd Ynys Prydain. (*Eistedda* IFAN *a syrth i'r llawr ynghanol chwerthin.*)

IFAN (*yn ddigofus*): Twt lol! rwyt ti mor ddwl a llo blwydd, Jared. Rhyw jocio'n dragwyddol rwyt ti. Wn i ar arffed daear sut erioed y cest ti

dy droed i mewn yn sêt fawr Seilo : clown mewn syrcus ddylset ti fod.

JARED : Dyna fi wedi profi'r gosodiad wnes i rwan jest mai croen teneu enbyd sy gen ti ; mae o fel croenin pwdin reis. Ond eiste, Ifan bach, a gad i ni anghofio'n poen mewn mwg baco. (*Estynna'r blwch baco iddo.*) Lodia dy getyn a phasia fo rownd i'r postman.

IFAN : Mae Hopcyn, ddalia i, yn colli llawer o hwyl wrth beidio smocio.

JARED : Mae'n syn i mi na fasa ti, Hopcyn, yn smocio, a tithau'n gwerthu baco. Ar fy ngair i, dos gen ti o bawb ddim hawl i beidio smocio.

HOPCYN : Sut hynny ?

JARED : Wel os wyt ti'n credu fod smocio'n arferiad drwg, ac mi wn dy fod, pam gebyst wyt ti'n gwerthu baco ? Os wyt ti o'r farn mai gwastraff ar arian ydi smocio, ymhle mae dy gysondeb yn ei werthu dros y cowntar ? Wyt ti ddim yn gweld dy fod fel Satan yn temtio'r crydd a'r postman a finnau i syrthio i'r arferiad ac i wastio'n harian prin ?

HOPCYN : Os na phrynwch chi faco gen i, mi prynwch o'n rhywle'r cnafon barus.

JARED : Rhen gribiniwr arian ! rwyt yn barod i bocedu pris y gwenwyn wyt ti'n gredu sy'n lladd Ifan a Dafydd a finnau'n raddol. Mi grafi di'r pres baco sy'n ein tlodi ni'n tri, ffei o honot !

IFAN : Pwya fo, Jared. O ! un garw wyt ti, Hopcyn ; rwyt ti'n ddigon di-gydwybod i werthu petha sy'n groes i d'argyhoeddiad.

HOPCYN : Aros di, Ifan Wyn ; ti ydi Radical mawr y plwy ma, yntê ?

IFAN : Gyr ymlaen.

HOPCYN : Ti sy'n gneud sgidia i'r gŵr o'r Plas, y Tori mwya yn y sir, ac yn y sgidia rheiny mae o'n brasgamu ar adeg lecsiwn i ddeyd a gneud yn groes hollol i'r hyn gredir gen ti.

JARED : Howld ! nid run peth ydi hynny a dy waith di'n gwerthu baco nad wyt ti'n credu dim ynddo.

HOPCYN : Run peth yn holloi ydi'r ddau. Ac mae gen i damaid bach i titha i'w gnoi, Jared. Rwyt ti'n brysur ddoe a heddiw'n gneud drws stabal i ŵr y Plas, yn dwyt ti ?

JARED : Dos ymlaen ; mi wela dy fod wedi codi stêm.

HOPCYN : Dyma titha'n rhoi dy hun yn Radical mawr fel Ifan, ac eto rwyt ti'n ddigon anghyson i neud drws stabal i geffyla sy'n rambandio o gwmpas yr ardal ar etholiad i gario dynion i fotio'n erbyn yr egwyddorion rwyt ti byth a hefyd yn eu brolio.

ELIS : Yn ol dy syniad di felly, rhagrithiwrs a Phariseaid ydi pob enaid ohonom ?

HOPCYN : Ddwedais i mo hynny Dafydd ; dal rydw i mod i mor gyson a neb ohonoch. Y ffaith

ydi hyn, os chwiliwch i mewn yn fanwl i betha, mae pawb, fwy neu lai, yn gorfod bod yn anghyson. Cymer dy hunan fel engraifft Dafydd : rwyt ti'n cario bwndeli o bapurau Toriaidd i ŵr y Plas sy'n lledeanu Toriaeth er dy fod dithau'n galw dy hun yn Rhyddfrydwr mawr, a chi'ch tri sy'n fy nghael i'n brin o gysondeb. Sgubwch yn lan o flaen carreg eich drws eich hun cyn deyd fod llwch ar f'un i.

JARED : Hanner munud ! rwyt ti'n union fel rhen longwr na fydd yn dod i ffair Caerdref i gael i rwymo â rhaff, mae'n llithro o bob cwlwm, ond mi ro i gwlwm dolen ar dy sodla na fedri di syflyd gam ohono. Rwyt ti'n deyd bob amser fod smocio'n arferiad drwg, yn dwyt ti ?

HOPCYN : Ydw.

JARED : Ac eto i gyd rwyt ti'n gwerthu'r stwff i'w smocio ?

HOPCYN : Dos ymlaen a'th ymresymiad.

JARED : Os ydi smocio'n ddrwg, mae'n rhaid fod baco'n ddrwg, achos does dim use i faco o gwbl ond i'w smocio. O'r goreu ; mae baco felly'n ddrwg ynddo'i hunan, ond am y sgidia mae Ifan yn i neud i Mr. Blackwell y Plas mae rheiny'n bethau anghenrheidiol achos mae'n rhaid i Dori gael sgidia.

HOPCYN : Ond pa gysondeb sydd i Radical penboeth fel Ifan neud pâr o sgidia i Dori mawr fel Mr. Blackwell ?

IFAN : Rwyt ti'n siarad yn union fel pe bawn yn gneud Toris o sgidia ; gneud sgidia i Doris rwyf fi a pheth arall ydi hynny.

HOPCYN : Pe bae'r anffyddiwr a'r cablwr pennaf yn y wlad yn dod am bar o sgidia atat, fasa ti'n ei wrthod ?

IFAN : Paid a phonsio'n wirion ; fasa'r sgidia wnawn i iddo fo ddim yn anffyddiwrs nac yn gablwrs.

HOPCYN : Ah ! cwiblo rwyt ti rwan.

IFAN : Nage'n siwr ; yn ol dy syniad di—anffyddiwr o grydd ddylai neud sgidia i anffyddiwrs ; a chrefyddwr o grydd ddylai neud sgidia i grefyddwrs.

HOPCYN : Ia, achos rwyn siwr na fasa'r Apostol Paul ddim yn gneud tent—gneud tentiau oedd i grefft o—fasa fo byth yn gneud tent i anffyddiwr ac i gablwr.

JARED (*gan annerch* HARRI) : Harri, picia dros y ffordd a galw ar Mr. Harris y gweinidog i ddod yma am ychydig. Wedyn mi elli gadw noswyl. Cofia ystyr y gair prentis, a chofia fod yma am saith bore fory. (*Exit* HARRI.)

HOPCYN : Beth wyt ti eisiau â'r gweinidog Jared ?

JARED : Fo gaiff setlo'r ddadl ma.

HOPCYN : Dydi o ddim yn chware teg â fo i'w lusgo i mewn i'r ddadl ma : dyn ifanc ydi o, a does dim mis er pan mae'n weinidog hefo ni.

IFAN : Na, dydw inna ddim yn leicio'r syniad o'i dynnu o i'r ddrag, achos cyw heb fagu adenydd ydi o, a rhaid i ni'r hen gonos beidio plicio'i blu yn rhy gynnar.

JARED : Cofia di fod Mr. Harris wedi bod yn y Coleg am dair neu bedair blynedd, a fuo ni'n pedwar erioed mewn dim coleg ond coleg y gweithdy ma : y fo fydd yn plicio'n plu ni'n siwr i ti.

ELIS : Ie, dyna'r peth tebyca, achos ma nhw'n dysgu ymresymu yn y colegau na wrth reolau neilltuol.

IFAN : Mi fentra mhen na chawso nhw rioed well dadlu na fydd yn y gweithdy ma ambell i noson.

MR. HARRIS (*gan ddod i mewn a syllu o'i gylch*) : Pwy fasa'n disgwyl cyfarfod â blaenoriaid Seilo'n drefnus hefo'i gilydd yma ?

JARED : Does gyno chi ddim yn erbyn i ni ddod am scwrs a smoc i weithdy saer gyda'r nos fel hyn, Mr. Harris ?

MR. HARRIS : Yn erbyn ? Welwch chi, Jared Jones, hen jeinar ydw inna hefyd ; mewn gweithdy saer y bum i am flynddoedd cyn mynd i'r coleg, a byth er hynny mae gen i rywbeth i'w ddeyd wrth y gweithdy. Yno y clywais i ugeiniau lawer o ddadleuon cryf ar wahanol bynciau. Jared Jones, ga i drio'm llaw ar y tools ma am funud i weld ydi mysedd a nhw'n dal i nabod i gilydd ?

JARED : Cewch nen tad annwyl, ond er mwyn daioni peidiwch a chodi siop saer mewn oposisiwn i mi ne mi ewch a ngwaith i gyd, a does fawr o fraster arno fo fel y mae petha. (*Tyn* MR. HARRIS *ei got hanner oddiamdano.*) Cyn i chi drioch llaw setlwch ddadl go boeth sy ar droed yma. Rwan, beth ydi'ch barn chi ? Gneud tentia oedd crefft yr Apostol Paul yntê ? Fasa Paul yn foddlon i neud tent i anffyddiwr a chablwr ?

MR. HARRIS : Fasa Paul yn gneud tent i anffyddiwr a chablwr ?

JARED : Ia siwr.

MR. HARRIS : Wel, os oes rhyw werth ynddi, dyma marn i, basa, mi fasa Paul yn gneud tent i'r dyn gwaetha'n y byd, achos dyna ydi crefydd, " os d'elyn a newyna, portha ef."

HOPCYN : Ond fasa Paul yn gneud tent i un o elynion y Brenin Mawr ?

MR. HARRIS : Basa, greda i, ac mi fasa wedyn yn mynd at y dyn i'r tent i geisio gneud gwell dyn ohono fo. A chyda llaw mae gen i, fel mae'n digwydd, fater bach yr hoffwn i gael eich barn arno, a barn ffafriol os yn bosib.

JARED : Rwan am dani, Mr. Harris, tra mae'r haearn yn boeth.

MR. HARRIS : Dyma'n agos i fis er pan ordeiniwyd fi'n weinidog yma, ac fel pob gwas newydd mae gen i gynllun bach y carwn i ei roi o'ch

blaen fel blaenoriaid Seilo, a dyma fo : rwyf wedi gosod fy mryd ar alw yn nhŷ y bobl hynny yn yr ardal yma nad ynt yn mynd i unrhyw le o addoliad. Mi leiciwn ar gychwyn fy ngweinidogaeth roi gwâdd iddyn nhw i'r capel : mae hynny'r peth lleia fedra i neud. Mae gobaith i ddyn go ddrwg ond ei gael i sŵn pethau da. Be ydi'ch barn chi ? (*Pawb yn fud.*) Go ddistaw yda chi ; rwyn ofni nad ydach chi ddim yn ffafriol i'r cynllun.

JARED : Mr. Harris, mi fedrwn ddadlu pyncia trymion yng Nghymru am oriau bob dydd, ond go ddi-gynnig yda ni ar dipyn o waith ymarferol. Tyrd, Ifan Wyn, dywed rywbeth, seinia gân yn lle bod yn fudan.

IFAN (*gan chware â'i getyn*) : Peth newydd spon yn y lle yma ydi galw ymhob tŷ, Mr. Harris ; nath neb erioed mohono i mi gofio.

MR. HARRIS : Tybed nad yw'n llawn bryd i neud hynny, Ifan Wyn ?

IFAN : Wel, fy marn onest i ydi, mi rydw i'n leicio gadael i ddynion fod at eu dewisiad heb ddim gorfodaeth yn y busnes o gwbl.

HOPCYN : Dyna marn inna hefyd, Mr. Harris.

MR. HARRIS : Does dim gorfodaeth ar neb wrth gwrs, ond tybed na ddylwn i roi gwâdd caredig i bobl nad ydynt byth yn mynd i gapel nac eglwys—dangos fod gennym ddiddordeb ynddyn nhw beth bynnag. Cofiwch, dydw i ddim yn disgwyl i neb

ohonoch chi fel swyddogion ddod hefo fi rownd y tai ma.

HOPCYN : Mae'n dda gen i glywed hynny, achos mae ar lawer ohonyn nhw gwrs byd o arian i mi yn y siop am *goods.*

IFAN : Mae na lu ohonyn nhw hefyd yn cerdded mewn sgidia na thalson nhw ddim dima goch y delyn i mi am danynt—y gweilch drwg.

JARED : Cato pawb, Mr. Harris, mae ma dalwrs siamal o ddrwg yn y wlad. Da chi rhowch bregeth i ni rai o'r Suliau nesa ar y gair ddeydodd Eliseus wrth y wraig honno : " Dos gwerth dy olew a thâl dy ddyled." Mi wnae un bregeth felly'r byd o les.

MR. HARRIS : Mi gofia'r cyngor, Jared Jones. Ond unwaith eto mae fy holl fryd ar fynd i wâdd y bobl yma nad ynt yn mynd i unrhyw le o addoliad, ac rwyn siwr na sefwch chi ddim yn erbyn hynny. (*Cyfyd pawb ac arwyddant yn eu ffordd eu hunain eu cyd-syniad.*)

IFAN : Mae un tŷ er hynny y byddai'n ddoethach i chi fynd heibio iddo heb alw, Mr. Harris.

HOPCYN : Mi wn i pwy sydd gan Ifan mewn golwg—cyfeirio mae o, mi wn, at dŷ Dic Betsi'r Pantglâs. Richard Davies ydi enw'r dyn, ond fel Dic Betsi y bydd pawb yn i nabod o. Fo ydi pen portsiar yr ardal : mae o'n byw i lawr y cwm

mewn bwthyn bach, fo a'i ferch ; cadwch draw o'r fan honno beth bynnag.

IFAN : Ie'n wir, achos hen scum o ddyn ydi o sy'n gas gan bawb ; mae o'n portsio gêm a samons bob yn ail. Mi daliwyd o unwaith neu ddwy, ond y syndod ydi, chafodd o ddim jêl.

MR. HARRIS : Gŵr gweddw ydi o ?

IFAN : Ie ; mi ddaeth i'r ardal ma yn llanc o rywle na ŵyr neb o ble i wasanaethu efo Mr. Blackwell yn y Plas, ac mi briododd y ferch nobla'n y gymydogaeth, ac yn fuan iawn mi drôdd i feddwi a chafodd sac o'r plâs, ac o ddrwg i waeth yr aeth byth er hynny, ac mae'n dial ar Mr. Blackwell drwy bortsio ar ei stâd gymaint all o drwy'r blynyddoedd.

MR. HARRIS : Ei ferch sy'n cadw tŷ iddo, medde chi.

HOPCYN : Ie ; mi dorrodd ei mam ei chaion druan wrth weld Dic yn prowla'r coedydd a'r afonydd, a dyw'r ferch yma sy'n cadw'i dŷ yn fawr gwell na'i thad—rhyw hoeden wyllt, ofergoelus, anwybodus, na fu erioed mewn capel nag eglwys—mae hi fel pe'n perthyn i deulu sipsiwn. Mi fasa'n chwith gan ei mam, druan, feddwl y fath gornchwiglen o ferch adawodd hi ar ei hol.

MR. HARRIS : Wel, yn wir, tŷ go anobeithiol i alw ynddo yw hwnna, ac eto gresyn fasa i mi

beidio galw yno unwaith o leiaf. Pwy ŵyr na ddaw rhyw les o ymweld â nhw ?

IFAN : Dyma ni wedi'ch rhybuddio, Mr. Harris. Wrth gwrs fe gewch neud fel y mynnoch, ond yn siwr i chi gwell i chi beidio galw yno.

MR. HARRIS (*dan hwylio i fynd allan*) : Diolch am y rhybudd, ond y cwbl alla nhw neud ydi tafodi dipyn arna i. Mi ddo'i yma rai o'r dyddiau ma, Jared Jones i gadw'm llaw i mewn fel jeinar, mae'n rhy hwyr heno. Nos dawch bawb ohonoch.

PAWB : Nos dawch, Mr. Harris. (*A* MR. HARRIS *allan, ac mae ennyd o ddistawrwydd yn y gweithdy.*)

JARED : Diaist i, mae na gêm yno fo, fechgyn ! Ac mae'n dda gen i fod o am alw i weld Dic er mwyn rhoi siawns i'r hen walch. Hwyrach wedi'r cwbl fod gronyn o rhyw ddaioni yn Dic Betsi.

IFAN : Daioni wir ! pa ddaioni, sgwn i ?

JARED (*dan bruddhâu*) : Rhaid fod rhyw ddaioni yno fo ymhell yn ol neu fasa Martha'r Wern Lwyd ddim yn ei briodi : merch ragorol oedd Martha.

IFAN : Ah ! rwy'n cofio rwan, roeddet ti mewn cariad â Martha yn doeddet ti cyn i Dic ddod i'r ardal ma ?

JARED (*yn drist*) : Oeddwn, waeth cyfadde'n onest, ond Dic gariodd y dydd, ac yr oedd yntau'n gamp o ddyn bum mlynedd ar hugain yn ol. Ond

druan o Martha, byd helbulus gafodd hi, a doeddwn i ddim yn leicio'ch clywed mor lawdrwm ar Nel Davies. Os Dic ydi thad hi, Martha oedd i mam hi. Wel, nos dawch. Mi faria'r drws 'ma ar eich holau.

PAWB (*wrth fyned*) : Nos dawch !

(*Baria* JARED *y drws ar eu hol, ac wrth droi i fynd i'r tŷ drwy'r drws ar y chwith gwel* NEL *yn sefyll yno a shol ar ei phen.*)

NEL (*gan ddod i'w gyfarfod yn erfyniol*) : Jared Jones, mae nhad wedi ngyrru allan o'r tŷ ; mi yfodd yn drwm heddiw ac mae o'n gynddeiriog yn i ddiod. Wyddwn i ddim i ble i droi, ond yma y bydda i'n dod am gymwynas. Ga i aros yn y gweithdy ma heno ?

JARED : Na chewch ar un cyfri ; mi gewch aros yn y tŷ a chan croeso, ond mi gysga i yn y gweithdy ; rwy'n hen gynefin a gneud hynny.

NEL : Wn i ddim sut i ddiolch i chi.

JARED : Does dim i ddiolch am dano. Fe wnawn ragor na hyn i ferch Martha'r Wern Lwyd. Anghofia i byth mo'ch mam, a choelia i ddim nad ydach chi'n debig iawn iddi pan oedd hi run oed a chi.

NEL : Ddeydwch chi ddim wrth neb, rwy'n siwr, fod nhad wedi ngyrru allan o'r tŷ heno ?

JARED : Mi fyddaf fel y bedd. Mi gewch hyd i'r bwyd yn y gegin a gnewch bryd i chi'ch hun.

NEL : Na, dim pryd i mi heno, mi ges ddigon cyn rhedeg allan.

JARED : Does dim eisia bwyd arna innau chwaith, ond mi gewch estyn y glustog sydd ar y setl yn y gegin, os gnewch chi, ac yna fe wnaf y tro'n grand. (*A* NEL *i'r tŷ am y glustog.*)

NEL : Dyma hi.

JARED : Nos dawch !

NEL (*gan fynd drwy'r drws i'r tŷ*) : Nos dawch !

[*Disgynna'r llen ar* JARED *yn gosod y glustog ar y bwrdd i gysgu arni.*]

AR Y GROESFFORDD

ACT II.

Cegin Dic Betsi'r Portsiar.

[*Mae'r gegin yn lân ond tlodaidd. Ar y mur gyferbyn â'r edrychwyr gwelir tri neu bedwar o luniau, almanaciau, etc. Ar y mur ar y chwith, uwchben y lle tân, gosoder drych bach, a photo o fam* NEL DAVIES *ar y mur ar y dde wrth ochr y drws a arwain i'r gegin. Saif y bwrdd heb fod nepell o'r lle tân gyda dwy neu dair o gadeiriau a dressar gyferbyn â'r edrychwyr. Cyfyd y llen ar* NEL *y tu ol i'r bwrdd yn golchi'r llestri ar ol pryd o fwyd, ac eistedd* DIC BETSI, *ei thad, wrth y drws yn cyweirio rhwyd bysgota yn llewys ei grys ac mewn trowsus corduroy, a chrafat o gylch ei wddf. Mae gwisg* NEL *yn debig i un Gipsy—yn drwsiadus a llawn lliwiau deniadol.*]

NEL : Pryd byddwch chi'n ol heno ?

DIC (*yn sarrug*) : Does dim ods i ti pryd do i'n ol ; mi ddo'n ol ar ol gorffen fy ngwaith.

(*Mae ennyd o ddistawrwydd yn dilyn.*)

NEL : Leiciech i mi gadw'r kettle ar yr hob erbyn i chi ddod ?

DIC : Os bydd eisia rhywbeth arna i wedi dod yn ol, mi gei godi mechan i o dy wely i neud o ; does gen ti ddim i neud yn y tŷ ma o fore tan nos ond troi dy fysedd a jantio drwy'r coed. Mi gei godi, my lady, i ddawnsio tendans arna i.

NEL : Fydd hynny ddim yn newydd i mi ; rwyf wedi arfer codi bob awr o'r nos i'ch gillwng i'r tŷ.

DIC (*yn fygythiol*) : Dim o glep dy dafod di ne mi gei glywed pwys y nwrn i ar dy wep.

NEL : Fydd hynny chwaith, fel mae gwaetha'r modd, ddim yn newydd i mi : fydd o ddim y tro cyntaf i'ch merch gael llygad du gyno chi.

DIC (*cyfyd o'i eistedd a cherdd yn araf ar draws y gegin, a chyfyd ei ddwrn*) : Mi roi'r ddau mewn mowrning iti'r tro yma, y gnawes styfnig.

NEL : Styfnig ! Welwch chi, nhad, does waeth gen i heno am y dwrn yna. Rwyf wedi cadw tŷ i chi ers pan wyf yn cofio a hynny am ddim ond fy mwyd a rhyw dipyn o ddillad rhad. Chwynais i rioed am y driniaeth gefais gyno chi er fod y mywyd i'n galetach na bywyd y slaf isa. Fe'm troisoch dros y drws y noson o'r blaen. Ond marciwch hyn, os cyffyrddwch chi'ch llaw â fi heno, mi wnewch hynny am y tro ola'n eich bywyd.

DIC : Be nei di, sgwn i ? Seuthi di fi neu roi di wenwyn yn y mwyd i ? Hwyrach y dywedi di wrth y plisman ?

NEL : Mae gen i un arf na ddefnyddiais i mohono eto, ond mi rhof o ar waith heno os bydd raid.

DIC (*mewn peth ofn*) : Arf ! Pa arf wyt ti'n gario ?

NEL : Ewch yn ol i'ch cornel yn gynta ac hwyrach y cewch wybod wedyn.

DIC (*ymeifl yn ei hysgwydd a chyfyd ei ddwrn i'w tharo*) : Y faeden sosi ! Enwa'r arf sy gen ti'r funud ma ne mi gei weld miloedd o sers ar un trawiad. Mi ro un siawns iti a dim ond un. Ddeydi di ?

NEL : Na wnaf. Does dim ofn y dwrn 'na arna i heno, a fu gen i rioed i ofn o.

DIC (*gan ostwng ei ddwrn mewn math o edmygedd*) : Myn cebyst, mae mwy o frid ynot ti nag oeddwn yn feddwl.

NEL : Mae digon o frid yno i heno fel na chewch chi na neb arall ddim plygu f'ysbryd i.

DIC (*gan droi a mynd i'w gornel at ei rwyd*) : Wyddwn i ddim tan heno mod i'n magu rhyw greadur mentrus fel ti.

NEL (*gan fynd ymlaen â'r llestri*) : Wel, mi wyddoch rwan ; mae dysg o febyd hyd fedd.

(*Mae ennyd o ddistawrwydd yn dilyn.*)

DIC : Wel, rwan, Nel, beth am yr arf na ? Beth ydi o ?

NEL (*yn fwy siriol*) : Sgwn i ddylwn i ddeyd beth ydi o ?

DIC : Mi ddaru't addo deyd os down i'r gornel ma.

NEL : Rwan, mae'r ffrwyn yn dyn ar y nhempar i, ac rwy'n berffaith bwyllog—rwy'n benderfynol o'ch gadael am byth os rhowch chi'ch llaw arni a eto. Mi fedraf ennill y nhamaid achos mi fedraf weithio wrth lwc, a gweithio'n galed.

DIC : Dyna'r arf ai ê ?

NEL : Ie.

DIC : Dydi o ddim yn un perig iawn wedi'r cwbl.

NEL : Nag ydi ar un olwg—laddith o ddim cipar na hyd yn oed samon na phesant.

DIC : Laddith o ddim robin goch, mechan i, heb sôn am ddim math o gêm.

NEL : Dydw i'n cyfri dim yn eich golwg felly ?

DIC : Dim o gwbl pan yr ei di'n groes i f'wyllys.

NEL : Ond dydi'ch wyllys chi ddim yn reit bob amser ?

DIC : Mae'n reit y rhan amla a chofia di hynny. Wel, estyn y gwn na i lawr oddiar y pared i mi, mae hi'n bryd i mi gychwyn.

NEL (*estynna'r gwn a deil ef yn ei llaw gan edrych arno*) : Fyddwch chi'n cael arwyddion ambell dro, nhad ?

DIC : Be wyt ti'n feddwl—cnwllau corff a phethau felly ?

NEL : Na, nid petha felly'n hollol. Dyna fi rwan wrth dynnu'r gwn ma i lawr oddiar y pared, fe gredais mod i'n gweld rhyw oleu glas yn llithro ar hyd i faril.

DIC : Rwy'n dy ddeall i'r dim, mechan i ; trio'm stopio i fynd allan at yr afon rwyt drwy godi ofn arna i.

NEL : Mi leiciwn fedru gneud hynny, ond cyn wired a mod i'n sefyll yn y fan yma mi welais fflach las yn llithro ar hyd y gwn yma o'r trigar at i ffroen o. Nhad bach ! peidiwch mynd allan heno ?

DIC (*gan gydio yn un pen i'r gwn a* NEL *yn dal ei gafael yn y pen arall*) : Rwyt ti yn un o dy strancia'n siwr ddigon heno. Cofia be ddeydais i am groesi f'wyllys. Gillwng d'afael !

NEL : Gwrandewch arnaf am unwaith, nhad. Peidiwch a mynd allan heno er fy mwyn i.

DIC (*gan ei gwatwar*) : Peidiwch a mynd allan heno er fy mwyn i. Ydi bys Nel bach yn brifo ? Gaiff dadi bach neis roi tws iddo ? Dos o ngolwg i ; rwyt bron wedi ngneud i'n sâl rhwng pobpeth. Be sy'n dy gorddi di heno, sgwn i ? Rwyt fel ceiliog y gwynt—yn fy nyffeio rwan jest, y funud nesa yn gweld cannwyll corff yn rhedeg ar hyd baril y gwn yma, a dyma ti rwan yn mewian fel cath fanyw, (*gan watwar*) peidiwch mynd allan heno, nhad. Wyt ti'n clywed ? Gillwng d'afael ! (*Tyn y gwn*

o'i llaw, ac wrth ei dynnu tery'n erbyn llun ei wraig y tu ol, a syrth hwnnw i lawr oddiar y pared.)

NEL (*â'i dwylo i fyny*) : O nhad ! dyna chi wedi taro mam i lawr, mae'i llun hi wedi disgyn. (*Rhed at y llun a chyfyd ef gan graffu arno.*) O mam ! mi gês golled i'ch colli chi (*cusanna'r llun.*) Yn doedd gwyneb ffein ganddi, nhad ?

DIC (*edrych yn sarrug ar y llun*) : Oedd. (*Yn symud i'r chwith.*)

NEL : Rhyw bymtheg ar hugain oedd hi'n marw yntê, a finnau'n ddeg oed ? Oedd hi'n debig i mi o ran pryd a gwedd ?

DIC : Oedd am wn i, ond heriodd hi rioed mohono i fel ti, a doedd hi ddim yn gweld arwyddion fel ti ; wn i ddim i bwy rwyt ti'n debig.

NEL (*yn fyfyriol uwchben y llun*) : Sgwn i ymhle mae hi heno ?

DIC : Mi wyddost yn gystal a finna i bod hi'n gorwedd ym mynwent y Llan.

NEL : Ydi hi i gyd yno, tybed ?

DIC (*yn ddyryslyd*) : Ydi hi i gyd yno ! Be wyt ti'n feddwl ?

NEL : Ydi hynny oedd o mam ym mhridd y fynwent ne ydi hi yma yn y gegin ambell dro ?

DIC (*mewn penpleth mawr*) : I hyspryd hi wyt ti'n feddwl ? Welaist ti hyspryd hi rhywdro ?

NEL : Na, nid hynny, ond mi wn o'r gore i bod

hi yma ambell i noson ddistaw pan y bydda i yma ar ben fy hun.

DIC (*braidd yn ofnus*) : Ia, ond welaist ti hi, Nel ?

NEL : Na, welais i mohoni eto, ond rwy'n siwr mod i bron a'i gweld ambell waith ; rwy'n i theimlo hi yn y gegin yma weithiau gyda'r hwyr pan y byddwch chi'n y coed.

DIC (*yn bryderus*) : Oes i hofn hi arnat ti ?

NEL : Ofn Mam ! (*cusanna'r llun.*) 'Ch ofn chi, mam ? Na, ryda ni'n ormod o ffrindia i fod ag ofn ein gilydd, yn tyda ni ?

DIC (*mewn ofn*) : Rwyt ti'n siarad yn union fel tae hi'n fyw rwan yn y gegin ma ; yn tydi hi'n gorwedd yn ddigon llonydd yn mynwent y Llan.

NEL : Na, dydi mam ddim yno ; mae na rywbeth yno, ond nid mam ; mae mam yn fyw o hyd yn rhywle, wn i ddim ymhle, ond fe awn ar fy llw i bod hi weithiau yn y gegin ma. Nhad, peidiwch wir a mynd allan heno.

DIC (*gan ffyrnigo*) : Rwyt ti fel sguthan yn sgrechian yr un peth o hyd. Wyt ti wedi troi'n dduwiol, dywed, fel pobl y capel—yn rhy dduwiol i niodde i ddal samons hefo rhwyd yn y nos ?

NEL : Nac ydw i, nen tad, ac eto i gyd rwyn teimlo weithia mai nid chi bia'r samons.

DIC : Pwy pia nhw ynte ? Pwy nath y samons sydd yn yr afon ?

NEL (*yn chwareus*) : Wel, nid Dic Betsi gnath nhw beth bynnag, er mae fo sy'n dal y rhan fwya o honyn nhw.

DIC : Ia, ond mae'r afon, a'r awyr, a'r coed yn rhydd i bob dyn byw bedyddiol, ne mi ddylent fod.

NEL : Dyda chi a Mr. Blackwell y Plas ddim o'r unfarn ar y mater yna ; mae o'n talu cyflog i gipar ne ddau i'ch watsio chi a'ch tebyg.

DIC : Pa hawl sy ganddo fo i hawlio holl greaduriaid y coed a'r afon ? Mi rydw i'n perthyn o bell i'r corgi sgwar er na fyn o ddim arddel y berthynas, a dydw inna rioed wedi arddel y berthynas, a wna i byth. Mi rydw i gymaint gŵr bonheddig ag yntau, y lordyn boldew.

NEL : Ydach wrth gwrs, os ydi byw ar gêm yn farc o ŵr bynheddig. Ond unwaith eto, rwyf am i chi aros yma heno os gnewch chi.

DIC : Dos i Jerico, rhen frân ffôl, a phaid a chrawcian ddim yn rhagor. (*Gwisg ei gap i gychwyn allan.*)

NEL (*neidia at y drws gyda llun ei mam yn ei llaw i geisio ei atal*) : Er mwyn mam peidiwch mynd heno ; fe syrthiodd ei llun oddiar y pared nawr jest, a choeliwch fi, arwydd fod rhywbeth drwg ar ddigwydd ydi hynny, a digwydd heno hwyrach.

DIC (*gan ei hyrddio oddiwrth y drws*) : Dos i dy grogi, rhen ddyllhuan y felltith ! (*Clecia'r drws ar*

ei ol, ac eistedd NEL *yn benisel gan edrych ar y llun ; gesyd ef yn y man yn ei le ar y pared. Ar hynny daw curo ar y drws, sych hithau ei dagrau â'i ffedog, ac egyr y drws.*)

MR. HARRIS (*ar y trothwy*) : Esgusodwch fi, ai yma mae Mr. Richard Davis yn byw ?

NEL (*mewn ffug-betruster*) : Mr. Richard Davis, Mr. Richard Davis. 'Ruwd annwyl dad, ai holi am Dic Betsi yr ydach chi. Mr. Richard Davis ! Beth nesa tybed ? Mi fydd Dic Betsi wedi mynd yn scweiar mewn chwinciad. Ia, yma mae Richard Davis, escweiar, yn byw, a fi (*gan bwyntio ati ei hun*) yw ei ferch, Lady Nel, sy'n golchi'r llawr ac yn berwi'r uwd iddo fo. Dowch i mewn i'r sittin room.

MR. HARRIS (*gan ddod i mewn*) : Ydi'ch tad i mewn rwan sgwelwch chi'n dda ?

NEL : Nad ydi, mae o newydd fynd am dro ar ol swper rownd i stad ; mi fydd yn mynd ddwywaith neu dair yr wsnos rhag ofn fod rhyw gnafon drwg o'r capel na yn seuthu'r gêm sy yn i barc o tu cefn i'r plas ma. Ond rydw i, Lady Nel, yr etifeddes, yn digwydd bod i mewn. Rhowch eich het i mi. (*Try'r het yn ei llaw.*) O'r annwyl, dyma het ddigri, mae hi'n feddal fel pwdin. (*Gwisg hi ar ei phen a dring i ben y gadair i gael golwg arni ei hun yn y drych uwchben y tân.*) Lady Nel mewn het ciwrat ! Chi ydi ciwrat capel Seilo ?

MR. HARRIS : Wel, na, nid ciwrat ydi'r enw cywir : ciwrat eglwys ddywedwn ni yntê ? Fi ydi gweinidog newydd capel Seilo, Miss Davis.

NEL (*ar y gadair*) : Lady Nel Davis sgwelwch chi'n dda ; dropiwch y gair ' Miss ' yna, achos mae o'n nhagu i bob tro y clywaf o.

MR. HARRIS : Dod yma gan ddisgwyl gweld eich tad yr oeddwn i heno——.

NEL : Dear mi ! Dyna fel bydd gweinidog yn siarad, ai ê ? (*Gan watwar.*) Disgwyl gweld eich tad yr oeddwn i heno, achos dyda chi, ei ferch, ddim yn werth i'w gweld.

MR. HARRIS (*yn swil*) : Ddwedais i mo hynny ; roeddwn am eich gweld chi yn gystal a'ch tad.

NEL : Dyna well dipyn y tro yna, Mr. ——, be ydi'ch enw chi, deudwch ?

MR. HARRIS : Eifion Harris.

NEL : Gan na fum i rioed o'r blaen yn siarad â chiwrat na gweinidog, wn i ddim yn iawn sut i'ch cyfarch chi ; sut mae'ch cyfarch—Mr. Harris, Mr. Eifion Harris, neu'r Parch. Eifion Harris ?

MR. HARRIS : Fe wnaiff un ohonynt y tro—Mr. Harris os mynnwch chi.

NEL : Fel y mynnoch chi, Mr. Harris, achos does gen i mo'r gwrthwynebiad lleia i'ch galw'n Eifion, neu——o'r annwyl dad ! mae gen i enw dan gamp arnoch, Ivy ! Mae o fel enw merch byddigiwns.

MR. HARRIS (*yn ddig*) : Fe drois yma heno fel cymydog newydd, a doeddwn i ddim yn disgwyl cael fy ngwawdio gynno chi, Miss Davis.

NEL (*gan ysgwyd ei bys arno*) : Dyna'r hen air meddal na eto ; galwch fi'n Nel Davis, a pheidiwch a meddwl mod i'n gwawdio. Rhaid i chi gofio mai dyma'r tro cyntaf rioed i mi fod yn siarad â gweinidog, a rhaid cropian cyn cerdded, wyddoch. Dydach chi ddim yn ddig iawn, ydach chi ?

MR. HARRIS : Na, na, dim o gwbl, ond mi leiciwn wybod ymhle mae'ch tad.

NEL (*saif o hyd ar y gadair ac etyb mewn ffug ddistawrwydd, â'i llaw ar ei genau*) : Portsio samons mae o, ond peidiwch a deyd wrth y cipar.

MR. HARRIS (*yn ddifrifol*) : Wel, yn wir, mae'n ddrwg gen i glywed. Ydach chi ddim yn teimlo ei fod yn gneud drwg, Nel Davis ?

NEL (*yn ddiniwed*) : Gneud drwg ! Drwg i bwy ? I'r samons ?

MR. HARRIS : Mi wyddoch chi'n well na hynny ; mi wyddoch nad ydi portsio ddim yn iawn, yn tydi o cynddrwg a—(*gan betruso*).

NEL : Cynddrwg a pheth ? Ewch ymlaen.

MR. HARRIS : Wel i fod yn blaen a gonest, cynddrwg a lladrad.

NEL (*neidia i lawr o'r gadair a wyneba ef yn ddigllon ; gan dynnu'r het oddiar ei phen*) : Ydach

chi'n meiddio galw nhad yn lleidr ? Ddaethoch chi yma heno i'n galw ni'n lladron ?

MR. HARRIS : Na, na ! rhoswch funud ; peidiwch digio na chamesbonio pethau. Mi wyddoch gystal a finnau nad ydi portsio ddim yn cael ei styried yn beth parchus. Deydwch yn onest, ydach chi'n leicio gweld eich tad yn mynd allan hefo'i wn neu'i rwyd bob awr o'r nos ?

NEL (*gan betruso*) : Wel, a deyd y gwir, nac ydw.

MR. HARRIS (*yn siriol*) : Dyna fo'n union, mi wyddwn hynny, ac wrth gwrs y rheswm am hynny ydi——

NEL : Mae gen i ofn bob tro y seuthith y cipar o ; ofn i weld o'n dod yn gorff i'r tŷ.

MR. HARRIS : Chreda i mohonoch ; nid dyna ydi'ch ofn ; yng ngwaelod eich calon fe wyddoch nad ydi o ddim yn gneud yn iawn. Ond mi rydw i'n anghofio'm neges. Dod yma wnes i i'ch gwâdd chi a'ch tad i'r capel rai o'r Suliau nesa. Fyddwch chi ddim yn mynd i unrhyw le o addoliad, fyddwch chi ?

NEL : Mi fyddaf yn mynd i ganol y coed neu i lan yr afon ambell i bnawn Sul i glywed yr adar yn canu ac i wrando ar sŵn yr afon ar ben fy hun.

MR. HARRIS : Ia, ond fyddwch chi ddim yn addoli yno ?

NEL (*yn fyfyriol*) : Addoli ! Beth ydi addoli ? Rhywbeth tebig i hiraeth ydi o, yntê ? Mi glywsoch y delyn yn canu wrth gwrs ; bob tro y clywa i hi,

mae arna i eisio crio ac eisio dawnsio run pryd. Wn i ddim ffordd i ddeyd sut bydda i'n teimlo wrth glywed y delyn, ond mi wn fod sŵn y coed a sŵn yr afon yn gneud yr un peth i mi'n union ; mi fedrwn grio a dawnsio run anadl. Rhywbeth fel yna ydi addoli, yntê ? Dyn yn teimlo'n rhy sad i fod yn hollol lawen ac yn rhy llawen i fod yn hollol sad—rhywbeth fel yna ydi addoli, yntê ?

MR. HARRIS (*tyn ei law yn ystyriol dros ei wyneb*) : Wn inna ddim yn iawn chwaith, ond mi goelia i fod rhyn ddwedsoch chi rwan yn rhyw fath o addoli hefyd.

NEL : Glywsoch chi afon yn siarad a chi ? Glywsoch chi'r coed yn deyd rhywbeth rhyw dro ?

MR. HARRIS (*yn syn*) : Naddo'n sicr ; glywsoch chi ?

NEL : Do, lawer gwaith.

MR. HARRIS : Beth fydd yr afon a'r coed yn ei ddeyd wrthych chi ?

NEL : Deyd y bydda nhw weithia mod i'n siwr o farw, ac na fydd dim colled ar f'ol. Dro arall mae nhw'n deyd fod mam yn fyw yn rhywle, er fod i bedd hi yn y Llan.

MR. HARRIS : Fydda nhw'n deyd rhywbeth arall ?

NEL : Ar ol i chi fynd adre, hwyrach yr af allan am dro drwy'r ardd, ac mi fydd y nos a'r coed a'r afon yn dwrdio'n enbyd am i mi golli nhempar efo nhad jest cyn i chi ddod i mewn.

MR. HARRIS : Gollsoch chi'ch tempar ?

NEL : Do, mi collais o heno'n ddrwg, ac mi gês y drafferth fwya gês i rioed i gadw rhag cydio mewn rhywbeth pan oedd nhad yn mynd i nharo i.

MR. HARRIS : Gwarchod ni ! fydd o ddim yn eich taro, fydd o ?

NEL : Bydd, mi roi'th lygad du i mi weithia.

MR. HARRIS (*yn ddigllon*) : Yr hen lwfrgi sâl !

NEL (*yn brochi*) : Helo, pwy roddodd hawl i chi i alw nhad yn enwau drwg ? Nhad i ydi o, ac mae ganddo hawl i roi clustan i mi os leicith o heb ofyn caniatâd neb.

MR. HARRIS (*yn danllyd*) : Nac oes, a phe gwelwn i o'n gneud hynny mi——ond waeth tewi. Unwaith eto, ddowch chi i'r capel efo'ch tad ne wrthych eich hunan rai o'r Suliau nesa ma ?

NEL (*gan chwerthin*) : Dic Betsi a'i ferch Nel yn mynd i'r capel ! Mi edrychai pobl Seilo arnom fel pe bai cyrn ar ein pennau. (*Gwel galch ar got* MR. HARRIS.) Rhoswch funud mae na smotyn gwyn o galch ar y got ma. (*Cais ei frwsio â'i llaw ond metha.*) Tynnwch y got ma oddiam danoch am funud ac mi brwsiaf hi mewn chwinciad ar y bwrdd ma.

MR. HARRIS (*tyn ei got*) : Raid i chi ddim trafferthu chwaith.

NEL (*gan ei brwsio ar y bwrdd*) : Coblyn o beth ydi du, yntê, am ddal pob math o lwch ? Wn i ddim pam mae neb yn gwisgo du, ac yn enwedig bregethwrs, achos lliw mowrning ydi o. Ddaru chi sylwi y lliw mowrning yn y coed ydi cochddu a melyn, byth ddu ; mynd i'w cochddu a'u melyn y mae'r coed wrth farw, ond rhowch liwiau coch a glas a gwyrdd a gwyn i mi, mi fydda'n teimlo mod i'n fyw yn rheiny ; mi faswn yn mynd dros fy mhen i'r felancoli pe gwisgwn ddu. (*Deil y got yn ei llaw.*) Diain i, mi leiciwn drio cot laes fel hon am dana. (*Rhydd hi am dani a'r het feddal ar ei phen, ac â ymlaen ar draws y llawr dan 'swagro' i ben y gadair i weld ei hun yn y drych ar y pared.*) Sut rydw i'n edrach ? Tybed na wnawn i bregethwr ne giwrat ar binsh ?

MR. HARRIS (*yn anesmwyth iawn*) : Ryda chi'n edrach yn grand—fel mellten oleu mewn fram ddu. Ond r'annwyl fawr, gadewch i mi gwisgo nhw, mae gen i ofn bob munud clywed rhywun yn dod at y drws.

DIC (*egyr y drws a saif mewn syndod ar y trothwy*) : Be felltith ydi rhyw gamocs fel hyn ? Be ydi'r antarliwd sy'n mynd ymlaen yma ? Nel, wyt ti wedi mynd yn hollol o dy sense ? Pwy gebyst ydi'r dyn ma sy'n llewys ei grys ?

NEL (*yn chwareus*) : Dyma Mr. Eifion Harris,

gweinidog newydd Seilo ; dyma nhad, Mr. Richard Davis, yr oeddech yn holi am dano.

DIC : Dim o dy lol a dy giapars di yn y tŷ ma hefo dy Fistar Richard Davis ne mi dorra d'esgryn di. (*Rhuthra ati.*) Tyn y tacla na oddiam danat mewn dau funud. (*Tyn* NEL *hwy gan eu rhoi i'w thad ; yntau'n eu hyrddio'n ddirmygus at y gweinidog.*) Rhowch rhein am danoch mewn amrantiad a dacw'r drws, ac os nad ewch trwyddo cyn i mi gyfri tri, mi'ch dyrnaf chi drwyddo.

MR. HARRIS (*gan roi ei got am dano'n bwyllog*) : Peidiwch a dechreu cyfri tri, ne mi welwch mai dyna'r tri mwya costus ddaru chi rioed gyfri. (*Gwel* DIC *yn nesu'n fygythiol, a saif y* GWEINIDOG *heb symud.*) Gwell i chi sefyll draw ; mae gen i nerth tri chipar yn y mreichiau. Rhowch eich llaw yn agos ataf, Richard Davis, ne beth bynnag ydi'ch enw, ac mi fydd un portsiar yn llai yn yr ardal ma am fisoedd mi gymraf fy llw ar hynny.

NEL (*gan ddod rhyngddynt*) : Nhad, arna i roedd y bai i gyd, ac yn wir mae'n ddrwg gen i, Mr. Harris. Dod yma ddaru o, nhad, i'ch gwâdd chi a finna i'r capel. Nath dim person na gweinidog gymaint a hynny i ni o'r blaen ; a fi nath iddo dynnu ei got i mi gael brwsio'r calch oddiarni, ac mewn smaldod mi rhois hi am danaf.

DIC : Yr hen ffŵl ddi-ben yn chware dy gastia o hyd. Be ddeydodd hi oedd eich enw chi ?

MR. HARRIS : Eifion Harris.

DIC : Ga i deimlo bôn eich braich ?

MR. HARRIS (*dan wenu*) : Cewch neno'r dyn os leiciech chi neud hynny.

DIC (*dyry ei ddwylo ar ewynnau'i fraich*) : Tawn i byth yn symud, ma nhw mor dyn a chroen drwm a chyn gleted a chwipcord. (*Yn gollwng ei fraich.*) Mae dyn hefo braich fel yna'n rhy dda i bwlpud. Nos dawch, syr.

MR. HARRIS : Mi ddeyda'm neges cyn mynd : dod yma wnes i ofyn i chi ddod i'r capel, Richard Davis, rai o'r Suliau ma.

DIC : Na prin : ond pe delswn o gwbl, mi ddelswn i wrando ar ddyn a braich fel chi, ond ddo i ddim.

MR. HARRIS : Gadewch i'ch merch ddod ynte. (*Wrth droi i fynd allan gwel lun y fam ar y pared.*) Llun pwy yw hon ? Mae ma rhyw debygrwydd rhyngddi â'ch merch.

DIC : Dyna lun ei mam. Nos dawch.

MR. HARRIS : Nos dawch i chi'ch dau. (*Exit.*)

(*Ennyd o ddistawrwydd.*)

NEL : Pam ddaethoch chi'n ol mor fuan heno ?

DIC : Wn i ddim ; ond mi fuost yn cyboli cymaint â'r llun yna nes y ngneud i'n anesmwyth braidd. Tawn i'n llwgu'r funud ma, wn i ddim o ble y doist ti hefo dy sbrydion a dy freuddwydion a dy godl.

NEL (*teifl gusan at lun ei mam*) : Mam ! dyna'r goncwest gynta ; mi ddaw'r ail hwyrach ymhen tipyn.

LLEN.

ACT III.

Study Tŷ'r Gweinidog.

[*Ar ran o'r mur sy gyferbyn â'r edrychwyr saif silffoedd o lyfrau a bwrdd yn llawn o bapurau a llyfrau wrth eu hochr. Ychydig i'r chwith i gyfeiriad ffrynt y llwyfan mae bwrdd bychan a llestr o flodeu arno. Gosoder soffa wrth y mur ar y chwith, a thair neu bedair o gadeiriau esmwyth yma ac acw drwy'r ystafell. Mae drws ar y dde yn agor i'r passage sy'n arwain allan i'r heol, a drws arall ar y chwith yn arwain i'r gegin sydd y tucefn i'r study. Cyfyd y llen ar y* GWEINIDOG *yn eistedd wrth y bwrdd llyfrau, â'i gefn at y gynnulleidfa, yn brysur gyda'i bregeth, a'i chwaer* MARGARET *wrth y bwrdd blodeu yn eu trefnu yn y llestr. Wrth ei hymyl ar lawr gwelir "Concordance."*]

MR. HARRIS: Un waith eto, Mag bach, ac wedyn mi gei lonydd am wsnos. Chwilia am y gair llongddrylliad; yn un o epistolau Paul mae o rydw i'n credu.

MARGED (*chwilia'r "Concordance"*): "Llongddrylliad am y ffydd"—a'i hwnna sy gen ti eisio?

MR. HARRIS : Dyna'r very peth : dyna bictiwr crand sydd yn y geiriau yntê ? Wyt ti'n cofio nhad yn dod i'r tŷ un noson pan oeddym yn blant, yn byw ar lan môr Eifionydd, i ddweyd fod llong allan yn y môr ar y creigiau ?

MARGED : Ydw o'r gore, a noson enbyd oedd hi,—y gwynt yn rhuo'n drwm, a'r môr a'r tonnau'n taflu bron i strŷd y pentre.

MR. HARRIS : A phawb yn y pentre'n hen ac ifanc allan yn edrych ar oleuadau'r llong yn siglo'n y pellter. "Llongddrylliad am y ffydd"—rwyt yn gweld y pictiwr sydd yn y geiriau, yn dwyt ti, Mag ? Dyn da fel llong fawr dri-mast yn mynd yn ddarnau ar greigiau temtasiynau'r byd.

MARGED : Wyt ti'n meddwl, Eifion, fod yn bosib i ddyn da fynd yn ddrylliau fel yna cyn marw ? Dydw i ddim yn leicio meddwl y gall dyn da droi yn ddyn drwg a marw allan ar y creigiau.

MR. HARRIS : Mag bach, mae na lu mawr wedi gneud hynny cyn hyn, ac ambell i bregethwr mawr yn eu mysg.

MARGED : Pregethwyr mawr efallai, ond oedde nhw'n ddynion da ?

MR. HARRIS : Pwy sydd i farnu ? I bob golwg roedde nhw'n ddynion da, ac yn gneud gwaith da, a phawb yn credu ynddyn nhw.

MARGED (*chwery â'r blodeu*) : Dda gen i ddim meddwl fod yn bosib i bregethwr sy'n ddyn da fynd yn " wreck."

MR. HARRIS : Rhaid cyfadde mai hen syniad annymunol ydi o. (*Mae'n ystwyrio fel dyn wedi blino.*) Rwyn mynd yn stiff wrth y bwrdd ma ; estyn y "dumb-bells" na i mi, Mag, i stwytho dipyn ar y nghymalau. (*Estynnir hwy iddo, a defnyddia yntau hwy ar ganol y llawr.*)

MARGED (*ymhen ysbaid*) : Fydd ofn syrthio o'r pulpud arnat ti weithiau, Eifion ?

MR. HARRIS (*rhydd y "dumb-bells" ar y bwrdd blodeu ac eistedda'n ymyl ei chwaer*) : Mag, mae rhywbeth o'i le arnat ti heno ; rwyn teimlo fel pa baet yn siarad am y pared â fi, a ninnau'n dau wedi bod y fath ffrindiau er yn blant adref. Beth yw'r mater, Mag bach ?

MARGED : Dim, hyd y gwn i.

MR. HARRIS : Oes, mae rhywbeth, a chyn i'r pared fynd yn beth mwy, dywed yn blaen, be sydd wedi codi rhyngom ni'n dau ?

MARGED (*yn benisel*) : Os dymunet ti wybod y gwir, Nel Davis, merch y portsiar, sy rhyngom ni.

MR. HARRIS (*yn codi gan fyned i'r dde*) : O, dyna fel mae'r awel yn chwythau, ai ê ?

MARGED : Mae'r peth yn fwy nag awel, mae'n wynt cryf sy'n chwythu drwy'r ardal.

MR. HARRIS : Be ŵyr yr ardal am y peth ?

MARGED : Fe ŵyr pawb drwy'r lle fod yr eneth wyllt na, Nel Davis, wedi dy ffoli'n deg, ac mae pawb yn methu deall be sydd wedi dod dros dy ben a thithau'n y swydd bwysig o weinidog Seilo.

MR. HARRIS : Meindied yr ardal ei busnes ei hun ; does a fynno hi a fy materion personol i.

MARGED : Dyna lle rwyt yn camgymeryd ; does gen ti fel gweinidog Seilo ddim materion personol, mae nhw'n faterion i bawb am dy fod yn weinidog yr Efengyl.

MR. HARRIS : Hynny ydi, fe ddylwn gael barn ffafriol yr eglwys ar y ferch brioda i ?

MARGED : Mi wyddost gystal a neb y dylai'r ferch briodi di fod yn weddol gymwys o leiaf i lenwi cylch gwraig gweinidog.

MR. HARRIS : Ac wrth gwrs mae Nel Davis yn anobeithiol ym marn yr ardal, ydi hi ?

MARGED : Onibae fod yr eneth na wedi dy witsio—witsio ydi'r gair gore am y peth—fe welest tithau nad ydi hi ddim yn ffit i fod yn wraig gweinidog ; dyna fel mae pawb yn siarad sy'n gwybod am dani. Wn i ddim am dani a does gen i byth eisiau gwybod am dani.

MR. HARRIS (*yn brudd*) : O Mag, Mag ! dyna'r gair garwa glywais i di rioed yn ei ddeyd.

MARGED : Wel, mae'n ddrwg gen i fod wedi dy frifo di, achos brawd da fuost i mi, ond (*yn benisel*) fum innau yn ddim chwaer wael i tithau chwaith,

ac mae'n iawn i mi gael gwybod wyt ti o ddifri hefo'r eneth yna.

MR. HARRIS : Rwyn ei charu o ddifri calon, a chyn belled ag y gwelaf mae hithau'n fy ngharu innau.

MARGED : Eifion bach, wyddost ti beth fydd y canlyniadau o'i phriodi hi ? Wyt ti wedi bwrw'r draul ? Gad i mi neud y bil i ti. Yn gyntaf i gyd, fe fydda i'n pacio mhethau a d'adael. (*Yn brudd.*) Ond hwyrach nad ydi hynny yn cyfri fawr yn d'olwg di heddiw ar ol i'r eneth ma groesi dy lwybyr.

MR. HARRIS (*â'i law am ei gwddf*) : Mag, paid a siarad yn chwerw fel yna, achos mi wyddost nad oes dim brawd yn y byd yn fwy hoff o'i chwaer nag ydw i ohonot ti.

MARGED : O, Eifion, ddylswn i ddim fod wedi deyd y gair câs na, ond anghofia fi am funud, mae na bethau pwysicach na fi yn y bil os priodi di Nel Davis. Wyt ti wedi meddwl o gwbl dy fod y dyddiau yma ar groesffordd, a dau lwybr—a dim ond dau—yn agor o dy flaen ?

MR. HARRIS: Dos ymlaen, rwyn gwrando'n astud.

MARGED : Un llwybr ydi Nel Davis, merch y portsiar ; y llwybr arall ydi'r eglwys, yr eglwys y cefaist ti a finnau'n magu ynddi er yn blant, yr eglwys y bu'n tad a'n mam a'n teulu o hil gerdd yn aelodau ffyddlon ohoni. Prun o'r ddau llwybr ddewisi di ?

MR. HARRIS (*cyfyd a rhodïa'n benisel yn ol a blaen*) : Rwyn methu gweld mod i wedi dod i groesffordd mor lom a honna.

MARGED : Cred fi, dyna'r groesffordd rwyt ti arni heddiw—Nel, merch Dic Betsi, neu'r eglwys Gristnogol. Os Nel ddewisi di, mi fydd ar ben arnat am byth fel gweinidog yr efengyl, nid yn unig yma'n Seilo ond ymhobman arall (*â'i phen i lawr*). Ac mi wyddost fel roedd nhad a mam wedi rhoi eu bryd ar i ti fod yn weinidog yr efengyl : roedd yn well ganddyn nhw dy weld yn fachgen tlawd yn y pwlpud nag yn y swydd fwya enillgar yn y wlad, a dyma ti ar fin gneud llongddrylliad o dy ffydd.

MR. HARRIS (*gan gyffroi*) : Llongddrylliad o'm ffydd ! Pwy sy'n deyd hynny ? Pe priodwn i Nel yfory, fyddai hynny ddim yn llongddrylliad o'm ffydd.

MARGED : Mi fydd llawn cynddrwg a hynny, achos pa eglwys ar wyneb daear all odde'r syniad o gael y fath eneth yn wraig i'w gweinidog ; geneth na fu rioed yn twllu drws y capel nac eglwys, geneth sydd wedi tyfu'n wyllt fel petrisen y mynydd, heb wybod y gwahaniaeth sy rhwng da a drwg, geneth sy'n llawn o ofergoelion ac arferion teulu'r sipsiwn. O, Eifion bach, rwyt ti'n mynd ar dy ben i lawr y clogwyn—Nel Davis yn wraig gweinidog, a Dic Betsi'r portsiar yn dad-yng-nghyfraith i ti ; wyt ti wedi bwrw'r draul ?

MR. HARRIS : Mae cymeriad moesol Nel gyda'r gore yn y wlad ; does dim blotyn ar ei charitor. Mae'n wir ei bod yn wahanol i bawb arall mewn rhai pethau, ond mae hi cyn bured a grug y mynydd.

MARGED : Rwyn meddwl digon o honot i gredu i bod hi mor bur a finnau, ond—grug y mynydd ! Ddaw grug y mynydd byth yn flodyn gardd tŷ gweinidog, a beth am Dic Betsi ? Wyt ti am blannu'r sgallen hefyd yn d'ardd ? Waeth i ti hynny na rhagor, rwyt ti ar y groesffordd rhwng Nel Davis a'r eglwys.

MR. HARRIS : Rwyn deyd unwaith eto, os ar y groesffordd yr ydw i, nid Nel a'r eglwys yw'r ddau lwybr sy'n agor o mlaen, ond Nel a rhagfarn yr eglwys yn erbyn Nel ; Nel a phobl nad ynt erioed wedi cynnig deall Nel.

MARGED : Nel Davis fydd dy ddewis felly ?

MR. HARRIS : Wel, os dyna'r groesffordd, os rhwng Nel a rhagfarn yr eglwys rwyn sefyll, mi ddewisaf Nel.

MARGED (*cyfyd i gau'r "Concordance" a'r Beibl*) : Dyma fi'n cau'r Beibl a'r Concordance iti ; fydd dim rhagor o eisiau rhain arnat ; dyma ddiwedd ar dy got ddu a'th gadach gwyn a dy bregethu.

MR. HARRIS : Nage ! Mi bregethaf heb got na chadach gwyn os bydd rhaid yn y prif-ffyrdd a'r

caeau. (*Clywir curo trwm ar ddrws y ffrynt ac â* MR. HARRIS *allan i'r passage a daw a* NEL DAVIS *i mewn. Ymddengys* NEL *fel pe mewn ing mud.*) Dwedwch rywbeth, Nel: mae'ch golwg chi'n nychryn i. Mi wyddoch mai fy chwaer yw hon, raid i chi ddim ofni siarad.

NEL (*yn araf a syn*): Mae na bedwar o ddynion yn cario nhad o goed y Plas.

MR. HARRIS: Oes rhywbeth wedi digwydd?

NEL: Wn i ddim! Wn i ddim! O! fedra i ddim crio. Dic Betsi! Mae arna'i ofn y bydd o farw ar y ffordd cyn cyrraedd adre.

DOCTOR HUWS (*daw i mewn heb guro o'r dde*): Rwyn dod i mewn yn ddiseremoni iawn, Mr. Harris, ond Dic Betsi——.

MR. HARRIS (*gan gyfeirio'i sylw at* NEL): Dyma Nel Davis, Doctor; y funud ma roedd hi'n dod i mewn i ddeyd am y digwyddiad.

DOCTOR: Rwyn gofyn cymwynas go fawr gennych, Mr. Harris—gawn ni ddod a Richard Davis i mewn i'r gegin neu rywle; mae pob munud yn werthfawr.

NEL (*ar ei gliniau o flaen y* DOCTOR): Oes rhyw lygedyn o obaith?

DOCTOR: Dowch chi, ngeneth i, mi wnawn ein gore rhyngom; peidiwch mollwng rwan. Gawn ni ddod a fo yma, Mr. Harris?

MR. HARRIS : Cewch wrth gwrs ; fe awn allan ein dau i gyfarfod a nhw. Mag bach, gofala am Nel Davis, mi fyddwn yn ol rwan jest. (*A* MR. HARRIS *a'r* DOCTOR *allan i'r dde.*)

MARGED (*gan blygu i lawr at* NEL *sydd o hyd ar ei gliniau*) : Ga i ddod a diferyn o ddŵr neu rywbeth i chi ? (*Ysgwyd* NEL *ei phen yn drist.*) Peidiwch mollwng rwan, hwyrach nad ydi'ch tad ddim wedi ei nafyd mor ddrwg wedi'r cwbl. Ga i'ch helpu i godi ? Mi fyddwch yn smwythach ar y soffa.

NEL : Fydda i byth eto'n esmwyth os ydi nhad ——. Ar eu gliniau y bydd pobol yn gweddio am bethau yntê ?

MARGED : Mi fyddwch yn gweddio weithiau ?

NEL : Gweddio ? Na fydda i. Dysgodd mam i mi ddeyd y mhader, ond ar ol iddi farw ddeydais i mohono byth wedyn. Atebith o ddiben i mi ddeyd y mhader rwan ? Rwyn meddwl mod i'n i gofio fo.

MARGED : Ie, deudwch o rwan, mi fydd yn siwr o fod yn help i chi.

NEL : "Ein Tad"—ydi O'n Dad i Dic Betsi ? Mi wn i fod O'n Dad i mam, achos roedd hi'n arfer siarad a Fo bob nos a bore. Ond hwyrach nad ydi O ddim yn ffrindie hefo nhad am i fod o'n bortsiar. (*Cyfyd ar ei thraed yn gyffrous.*) Glywch chi sŵn traed ?

MARGED (*ar ol gwrando*) : Na, chi'n sy'n dychmygu.

NEL (*â'i dwylo ar ei hwyneb*) : O, na fedrwn i grio ; mae na ryw ddistawrwydd yn y mhen i fel pe bae rhywbeth ar dorri o'i fewn.

MARGED : Steddwch ar y soffa ma, mi ddowch yn well yn y munud.

NEL (*gan eistedd*) : Mae sŵn cerdded araf y pedwar dyn na ar y nghlust i. (*Cyfyd yn sydyn.*) Rwyn mynd allan i'w cyfarfod.

MARGED (*yn erfyniol*) : Na wir, peidiwch a mynd. Mi fydd Eifion yn ol rwan jest. Ymhle roedd eich tad pan ddigwyddodd hyn ?

NEL : Fe aeth allan ar ol tê i bortsio.

MARGED : O! 'r tad annwyl, dyna beth difrifol !

NEL : Be sy'n ddifrifol ?

MARGED : Wel, meddwl fod hyn wedi digwydd ac yntau'n—(*petrusa*).

NEL (*ymeifl yn ei braich*) : Nid amser i ddeyd y drefn am bortsio ydi hi rwan ; mae nhad wedi frifo, mae gwaed Dic Betsi'n diferu ar hyd y ffordd.

MARGED : Ydi, mi wn, ond——

NEL : Y nefoedd fawr ! Welwch chi ddim mai nhad sy wedi frifo ; nid y portsiar ydi o i mi rwan, ond nhad, ac os colla'i nhad, mi golla'r cwbl sy gen i. (*Clywir sŵn traed cludwyr* DIC·BETSI *yn dod i mewn drwy'r passage ac yn mynd heibio drws y study i'r gegin y tu ol.*) Dyna nhw'n cario'i gorff o i mewn. Mae rhywbeth yn deyd wrtho i fod popeth ar ben heno. O nhad bach ! (*Yn*

ffyrnig gan gau ei dwrn.) Os y cipar seuthodd o, gobeithio y daw barn ar ben y llofrudd !

MARGED (*dan gilio'n ol oddiwrthi'n frawychus*) : Rhag cwilidd i chi'r eneth annuwiol, rydach chi'n waeth na phagan.

MR. HARRIS (*daw i mewn o'r chwith a gesyd ei ddwylo'n bwyllog ar ysgwydd* NEL) : Rwan, Nel bach ! wedi torri dros y tresi eto ? Rwyn gweld rhen olwg wyllt na yn eich llygaid.

NEL (*tyr i lawr i wylo ac eistedd â'i phen ar y bwrdd*) : Mam !

MR. HARRIS : Mag, dos i weini am dipyn ar y Doctor yn y gegin. (*Exit* MARGED *i'r chwith. Eistedda'r* GWEINIDOG *â'i law am wddf* NEL *â'u cefn at y drws sydd ar y chwith.*) Mi fyddwch yn well rwan. Mae'r Doctor yn gneud ei ore i'ch tad yn y stafell na.

NEL : Ydi hi ar ben arno ?

MR. HARRIS : Mae gobaith tra bo anadl.

NEL : O ! mae'n ddrwg gen i i mi ddychryn eich chwaer rwan.

MR. HARRIS : Mae'n biti nad allech chi goncro'ch tempar, Nel bach.

NEL (*yn ddigalon*) : Rwy'n waeth na phagan, medde'ch chwaer ac mae hi'n iawn. (*Daw y tri blaenor,* ELIS IFAN, *a* HOPCYN *i mewn o'r gegin drwy'r drws ar y chwith, ond ceisiant gilio'n ol*

drwy'r drws wrth weld MR. HARRIS *â'i law am wddf* NEL.)

MR. HARRIS (*cyfyd ar ei draed*) : Dowch i mewn. Rhoswch yma am funud. (*Wrth* NEL.) Dowch i gael golwg rwan ar eich tad. (*A* NEL *a'r* GWEINIDOG *allan drwy'r drws ar y chwith gan adael y tri blaenor yn edrych ar ei gilydd.*)

IFAN : Bobol annwyl, dyna ni wedi'i ddal yn yr act o garu â'r eneth yna. Mae'r stori'n wir, fechgyn.

ELIS : Paid a bod yn rhy siwr ; cwestiwn go gynnil ydi hwn. Y cwbl welsom ni oedd ei fraich am wddw'r eneth. Pe gwelsem o'n rhoi cusan iddi, mi fasa tir sâff dan ein traed.

HOPCYN : Gwelsom ddigon i wybod i sicrwydd i fod o'n caru â merch Dic Betsi.

ELIS : Howld ! be wyddom ni nad cysuro'r eneth yn ei gofid roedd o—i chysuro hi'n rhinwedd ei swydd fel gweinidog ?

IFAN : Rhinwedd ei swydd fel gweinidog wir ! Paid a lolian. Os nad oedd o'n caru rwan, wadnais i rioed bâr o sgidia yn rhinwedd fy swydd fel crydd.

ELIS (*cenfydd y "dumb-bells" ar y bwrdd blodeu*) : Beth ydi'r tacla yma, tybed ? (*Cymer hwy i'w law.*) Diain i, mae pwysa ynddyn nhw hefyd. Clyw, Ifan.

IFAN (*gan ddal yn ol*) : Na thwtsia i mohonyn nhw. Be wyddom ni nad tacla'r eneth na i witsio a deyd ffortun ydyn nhw ?

ELIS : Gafr i ! Mi wn be ydyn nhw ; efo'r rhain y bydd Dic yn taro talcen y samons fydd o'n ddal. O boced hen angeu'r pysgod y daetho nhw'n siwr i chi.

IFAN : Mwy tebyg o lawer mai arfa i daro mennydd y cipar ydyn nhw.

HOPCYN : Rho nhw'n ol ar y bwrdd, Dafydd, mae sŵn troed rhywun yn dod. Rwan am fod yn ddoeth ; peidiwn a rhuthro fel teirw gwyllt.

MR. HARRIS (*gan ddod i mewn o'r chwith*) : Rwyn ofni na fydd o ddim byw i weld y bore, druan, a dyna farn y Doctor hefyd.

HOPCYN : Beth yw'r rheswm i fod o yma hefo chi ?

MR. HARRIS : Y Doctor ofynnodd gymrwn i o i mewn ; roedd arno ofn iddo farw ar y ffordd. Mi gwelsoch chitha'ch tri o rwan jest ?

IFAN : Do siwr. O'r gegin oedde ni'n dod pan y gwelsom chi yn rhoi gair o gysur i'w ferch o yn rhinwedd eich swydd fel gweinidog.

MR. HARRIS : Mi fydd yn ergyd trwm iddi hi i golli o.

IFAN : Ergyd efallai ydi'r gair goreu. Llawer ergyd gafodd hi ganddo o dro i dro, a fedr o ddim marw heb roi un arall iddi, yr hen haffgi brwnt.

ELIS : Chware teg, Ifan, cofia fod Dic ar lan yr Iorddonen y munudau yma.

IFAN : Wel, os ar lan yr Iorddonen mae o, mi dyffeia fo y gwnaiff o'i oreu glas i bortsio samon neu ddau ohoni cyn i heglu hi dros y dŵr. (*Metha'r tri arall beidio gwenu ond ceisiant ymatal wrth gofio ymhle y maent.*)

HOPCYN : Yn wir, Mr. Harris, rhaid i chi roi pardwn i ni am fod mor ysgafn a'r dyn yna'n marw am y pared a ni, ond does neb yn yr ardal yn malio run botwm corn am dano ; chyll neb run deigryn ar ei ol.

MR. HARRIS : Mi wn i am un fydd mewn gofid go fawr ar ei ol.

HOPCYN : Cyfeirio'r ydach chi wrth gwrs at ei ferch o.

MR. HARRIS : Ie, mae o'n dad iddi.

IFAN : Welwch chi, Mr. Harris, heb guro rhagor o gwmpas y twmpathau, oes rhywbeth yn y siarad ma sy'n heplas drwy'r lle eich bod am briodi'r ferch yna ?

MR. HARRIS : Ai gofyn fel blaenor Seilo rydach chi neu fel crydd ?

JARED (*yn dod i mewn o'r chwith*) : Mi glywais dy gwestiwn di, Ifan Wyn, ac rwyn synnu at dy hyfdra, ond rhaid i chi gofio, Mr. Harris, fod Ifan yn grydd yn y sêt fawr weithiau ac yn flaenor ar ei sêt grydd dro arall, a does dim ond joch o gwyrcrydd yn dal joint y crydd a joint y blaenor wrth ei gilydd ym marchog y myniawyd ma.

IFAN (*yn ddig*) : Marchog y myniawyd, ai ê ? Mae'n well gen i hynny na bod yn rhyw dderyn corff fel ti yn prowla am siawns i naddu arch i Dic Betsi. Rwan, Mr. Harris, mae'n bryd i ni gael gwybod, ydach chi'n meddwl priodi merch Dic neu beidio, achos ryda ni bawb ers misoedd bellach mewn pryder ynghylch y peth.

JARED : Mae ngwaed i'n twymo wrth glywed dy hyfdra, Ifan Wyn. Wyt ti'n meddwl mai ti yw angel yr eglwys yn Seilo, dywed ? Os wyt ti, mae'n hen bryd rhoi patsh neu ddau ar d'adenydd di a choblo dipyn ar esgyll dy bedion.

MR. HARRIS : Hanner munud, chaiff dau hen ffrind fel chi ddim ffraeo â'ch gilydd o'm hachos i.

IFAN : Pam ynte mae o'n pwyo'i wimblad i mi ?

JARED : Pam rwyt tithau'n pwnio dy fyniawyd i mewn i fusnes y gweinidog ? Mae'n ofnadwy o beth na chaiff Mr. Harris ddim priodi'r neb a fynno.

HOPCYN : Jared, nid gelyniaeth yn erbyn Mr. Harris sy gan neb ohonom, ond mae ar bawb ohonom ofn i chi briodi'r eneth yma, ac fe ddaeth pethau i boint heno pan y gwelsom chi â'ch braich am ei gwddw.

JARED : Wel, tawn i byth yn symud o'r fan ma ! Hen lanc ydw i, a diolch i'r drefn am hynny, ond pe basa eglwys Seilo yn fy nal i'n gyfrifol i briodi pob geneth y bu'm llaw i am ei gwddw, mi

fasa gen i gymaint o wragedd a'r Shah o Persia—os doeth hefyd i briodi cymaint.

HOPCYN : Rwan, Mr. Harris, waeth heb areithio dim rhagor ac mae hi'n bryd i'n rhoi ni allan o'n pryder ; sut mae hi'n sefyll rhyngoch chi a Nel Davis ?

HARRIS : Fe ro ateb plaen i gwestiwn plaen—os yw Nel Davis yn fodlon fy mhriodi, mi priodaf hi.

HOPCYN : Beth bynnag fydd y canlyniadau ?

MR. HARRIS : Ie, beth bynnag fydd y canlyniadau.

HOPCYN : Mi priodwch hi hyd yn oed pe dywedem ni wrthych y collwch chi eglwys Seilo am neud hynny ?

MR. HARRIS : Gwnaf.

HOPCYN : Hynny ydi—mae Nel Davis yn fwy yn eich golwg na bod yn weinidog yr Efengyl ?

MR. HARRIS : Mae gwahaniaeth go fawr rhwng bod yn weinidog yr Efengyl a bod yn weinidog ar Seilo.

HOPCYN : Felly'n wir, dyna newydd i mi. Byddwch gystal ag esbonio'r gwahaniaeth i ni.

MR. HARRIS : Gweinidog yr Efengyl ar bobl Seilo ydw i ac nid gweinidog Seilo ar y Efengyl—mae'r Efengyl yn fwy na Seilo, yn anfeidrol fwy, ond mae perig i ddyn feddwl weithiau fod eglwys Seilo yn fwy ac yn gallach na'r Efengyl.

HOPCYN : Eglurwch eich hun i bawb ohonom gael deall eich safle.

MR. HARRIS : Eglwys Seilo, sef y bobl sy'n dod ynghyd i'r capel—y nhw sy'n dweyd, os ydynt yn dweyd, nad ydi Nel Davis ddim yn ffit i fod yn wraig i weinidog Seilo, dydi'r Efengyl ddim yn dweyd hynny—yr Efengyl fel rwyf fi'n ei deall. Rhagfarn pobl Seilo yn erbyn Nel Davis sydd o dan y gwrthwynebiad yma i mi ei phriodi.

HOPCYN : Rhagfarn ?

MR. HARRIS : Ie, rhagfarn noeth. Beth sy gan neb i'w ddweyd yn erbyn Nel Davis ? Oes rhyw flotyn ar ei chymeriad ?

HOPCYN : Nac oes, dim un blotyn i mi wybod, ond nid cwestiwn o gymeriad yr eneth sydd mewn dadl. Rŷm yn credu digon ynoch i wybod na fuasech byth yn priodi merch ddi-gymeriad. Y pwnc ydi hwn, nid a ydi Nel Davis yn bur ei chymeriad, ond ydi hi'n ddigon cymwys i fod yn wraig i weinidog Seilo. Wyr hi ddim am gapel nac eglwys, mae'i phen hi'n llawn o ryw syniadau gwyllt ac ofergoelus, a hon yw'r eneth sydd i fod yn wraig i'n gweinidog.

MR. HARRIS : Ffaeleddau bach iawn yw rheina, a buan y tyf hi allan ohonynt ond iddi gael chware teg.

HOPCYN : Nid mor fuan, achos mae aelwyd Dic Betsi wedi nwydo a lefeinio gormod arni.

MR. HARRIS : Ai ie, dyna chi rwan wedi dod at wreiddyn y gwrthwynebiad sydd iddi, y pechod mawr mae hi'n euog ohono yw, mai Dic Betsi ydi thad hi, dyna wraidd yr holl ragfarn yn ei herbyn. Druan ohoni, merch Dic Betsi ydi hi ; pe bae'n ferch i Mr. Blackwell y Plas, mi gawsai bob croeso er i'r un ffaeleddau'n union fod yn perthyn iddi, ac eto ni sy'n sôn am ysbryd gwerinol Cymru, a'r un pryd mor falch yr yda ni i gael bowio i wyr mawr a chrach-foneddigion.

HOPCYN : Wel, ofer yw i ni siarad dim yn rhagor. Dyma ni fel swyddogion Seilo wedi gneud ein dyletswydd, ac fe wyddom rwan ymhle mae'r naill a'r llall ohonom yn sefyll pan ddaw'r pwnc i fyny, os byth y daw, ger bron yr eglwys. Dyma ni'n mynd, Mr. Harris. Nos dawch.

MR. HARRIS : Nos dawch. (*A'r pedwar allan ar y dde ac ar ol iddynt fynd, daw* JARED *yn ol.*) Anghofio'ch het ddaru chi Jared Jones ?

JARED : Dod yn ol ddaru mi er mwyn cael ysgwyd llaw â chi, syr, ar ol y sgarmes (*gan gymeryd ei law*). Mr. Harris, mae na rêl gêm ynoch chi, os ca i usio'r gair. Os byth y daw hi i'r pen arnoch yn Seilo, gobeithio na ddaw hi byth i hynny, ond os digwydd i'r llanw droi yn eich erbyn, mae'r gweithdy acw'n agored i chi pan fynnoch. Hên jeinar ydach chi yntê ? Wel, er mae dyn tlawd ydw i, mi ranna'r pres nillwn ni gyda'n crefft. Mi

fydd hynny'n deg yn fydd o ? Bendith ar ych pen ! Mae na rêl gêm ynoch chi, fel sydd yn y dynion na yn y Beibl. Nos dawch !

MR. HARRIS : Nos dawch, a diolch i chi Jared Jones. (*A* JARED *allan ac eistedda'r* GWEINDIOG *yn benisel. Daw* MARGED *i mewn o'r chwith ac ymeifl yn gariadus yn ei law.*)

MARGED : Eifion, mae golwg digalon iawn arnat ti.

MR. HARRIS : Tipyn o gur sy yn y mhen i.

MARGED : Mae mwy o gur yn dy galon di, Eifion bach. Dywed beth yw'r mater.

MR. HARRIS : Rwyf wedi gadael y groesffordd.

MARGED (*yn llon*) : Ac wedi dewis llwybr yr eglwys ?

MR. HARRIS : Naddo, rwyf newydd hysbysu'r blaenoriaid y prioda i Nel Davis, boed y canlyniadau y peth y bônt. (*Egyr y drws o'r chwith a daw* NEL *i mewn.*)

MARGED : Nel Davis ! Rydach chi wedi mynd a mrawd oddiarnaf, ac wedi dwyn y gweinidog oddiar eglwys Seilo.

NEL : Dwyn ? Beth ydach chi'n feddwl ? Tybed nad oes digon o faich arna i heno heb i chi roi chwaneg arnaf ?

MARGED : Mae Eifion newydd ddeyd wrth flaenoriaid Seilo ei fod am eich priodi, er y gŵyr o o'r goreu beth fydd y canlyniad ; y funud y priodith

o chi, mi fydd yn rhaid iddo godi ei bac oddiyma. Mi ddylech fod yn falch o'ch diwrnod gwaith.

MR. HARRIS : Marged, rwyt wedi anghofio'th barch i'th hunan ac i minnau. Ai dyma'r amser iti fwrw dy lid ar Nel Davis yn i phryder a'i gofid ?

NEL : Does dim eisiau sôn am y mhryder i jest rwan, ond mae gen i hawl i wybod beth sy wedi digwydd yma. Ydach chi'n deyd mod i wedi dwyn eich brawd oddiarnoch chi ac eglwys Seilo.

MARGED : Gofynnwch iddo fo. Mae newydd rybuddio'r blaenoriaid o'i fwriad i'ch priodi er y gŵyr o y digia fo bawb drwy'r lle wrth neud hynny.

MR. HARRIS : Marged ! Fu arna i rioed o'r blaen gwilydd ohonot.

MARGED : Rwyn teimlo dros fy nhad a mam weithiodd nos a dydd i dy godi di i'r pwlpud i bregethu'r efengyl, a dyma'u tâl.

NEL : Eifion Harris, be sydd wedi digwydd ? Mae gen i hawl i wybod.

MR. HARRIS : Fe ddaeth y blaenoriaid yma fel y gwelsoch ac fe ddaeth pethau i boint. Gofynasant i mi oedd y stori'n wir fy mod yn eich caru, ac fe ddywedais ei bod. Fe ddwedais y gwir, rydw i yn eich caru er mai adeg ryfedd i ddweyd hynny yw heno.

NEL : Wel, ewch ymlaen.

MR. HARRIS : Gofynnodd y blaenoriaid i mi oeddwn i'n barod i'ch priodi pe byddai rhaid i mi

adael Seilo am wneud hynny, ac fe ddwedais y priodwn chi beth bynnag fasa'r canlyniadau.

NEL : Ah ! mae Nel Dic Betsi'n sgymun i bawb yn yr ardal, ac mi fydd byth. Does dim maddeuant byth i mi am fod yn ferch y portsiar.

MR. HARRIS : Does waeth gen i am farn neb yn y wlad, gan mai chi ydi cannwyll fy llygad i.

NEL : Mi fydd yn rhaid diffodd y gannwyll heno.

MR. HARRIS : Beth ?

NEL : Phrioda i chi byth !

MR. HARRIS : Mi fynna'ch priodi.

NEL : Mi gewch weld yn amgenach. Ddo i byth yn dragywydd rhyngoch chi ag eglwys Seilo na dim eglwys arall.

MR. HARRIS : Fe rois fy ngair y fan yna heno ddiweddaf y priodwn chi pe troid fi dros y drws fory nesaf.

NEL : Pwy ddywedodd wrthych y priodwn i chi ?

MR. HARRIS : Chi.

NEL : Naddo rioed !

MR. HARRIS : Fe roisoch le i mi gasglu drwy'r misoedd yma eich bod yn y ngharu i.

NEL : Ah, dyna rywbeth gwahanol. Marged Harris, dydi'ch cariad chi at eich brawd yn ddim ond fel cannwyll frwyn wrth yr haul yn ymyl y nghariad i ato ; mi awn drwy ffaglau tân er ei fwyn. Cariad ! Marged Harris, wyddoch chi mo

ystyr y gair eto ? Pwy sy'n ameu fy nghariad i at eich brawd ?

MR. HARRIS : Nel bach, mi wyddwn fod popeth yn "all right."

NEL : Rhoswch funud ; dydi popeth ddim yn "all right." Waeth un gair na mil phrioda i byth mohonoch.

MR. HARRIS : Ond fe ddwedsoch rwan eich bod yn y ngharu i.

NEL : Ydw, mi ddwedwn hynny ar goedd y byd, ond rwyn eich caru'n rhy fawr i'ch priodi.

MR. HARRIS : Nag ydach, ne mi priodech fi.

NEL : Eifion ! Er mai merch y portsiar ydw i, ddwedais i rioed gelwydd yn y mywyd—fum i rioed o'r blaen yn caru â neb, a chara i byth neb ond chi, ond mae'n well gen i fod heb weld ych gwyneb chi byth na dod rhyngoch chi a'ch gwaith fel gweinidog, ac mi wn nad ydi merch Dic Betsi ddim yn ffit i fod yn wraig gweinidog a fydd hi byth. (*Eistedda i lawr yn brudd.*)

MR. HARRIS (*wrth ei hymyl*) : Nel, fi ydi'r unig un yn y lle ŵyr eich gwerth, ac rwyn benderfynol o'ch priodi deued a ddêl.

NEL : Mae mhoen i'n ddigon heb roi un arall ato, ond waeth i chi geisio symud y Wyddfa na'm symud i o mhenderfyniad. Unwaith eto, ac am y tro ola, phrioda i byth mohonoch. Fe af yn ddigon pell o'r ardal ma i ennill y nhamaid rhywsut ond

am eich priodi—byth bythoedd ! (*Daw* DOCTOR *a* MR. BLACKWELL *i mewn o'r dde.*)

DOCTOR : Dyma Mr. Blackwell y Plâs. Mae wedi dod yma i weld sut mae Richard Davis.

MR. BLACKWELL : Ryw'n gofyn i chi scusio fi'n dod i tŷ chi, Mr. Harris, ond oedd yn ddrwg mawr gen i clywed fod Dic—bod Richard wedi brifo mor dost, ac wrth y cownt ma Doctor yn rhoi, ma fo'n case serious iawn. (*A i fyny at* NEL.) Merch Richard, yntê ? Ca i deyd gair bach yn private â hi, Mr. Harris ? Bydda i dim ond chydig munuda.

MR. HARRIS : Wrth gwrs, Mr. Blackwell. (*A* MARGED *a* MR. HARRIS *a'r* DOCTOR *allan i'r chwith.*)

MR. BLACKWELL : Nel Davis, ma'n drwg gin i dros ti a tad ti. Oedd o dim yn friends â fi ers blynyddoedd, achos ti'n gwbod bod o'n portsio ar tir fi.

NEL : Peidiwch a deyd gair yn erbyn nhad i heno.

MR. BLACKWELL : O dim gair. Ond dylat ti cofio ma fi daru cadw fo o'r jêl drw'r blynyddoedd. Basa fo yn jêl cant o weithia ond bod fi yn safio fo.

NEL : Wyddwn i mo hynny.

MR. BLACKWELL : Ma fo'n right gwir. Daru o deyd rhw dro bod fi a fo yn perthynas bychain i'n gilydd ? Wel mi oedd o yn perthyn pell i fi, a fi yn rhoi job da iddo fo yn y Plas pan oedd o llanc ifanc,

ond fe ath o i meddwi'n shocking, a dyna rheswm iddo mynd off o'r Plas. Pity, pity ! Ma Doctor am i fi deyd i ti fod case ma yn serious iawn.

NEL (*ar ei thraed*) : Ydi o'n mynd i farw heno ?

MR. BLACKWELL (*cydia yn ei llaw*) : Paid ti torri calon di, Nel Davis, fi gofalu am ti ar ol i tad di mynd.

NEL (*â'i phen ar y bwrdd*) : O nhad !

MR. BLACKWELL : Paid ti upseto dy hun—fi gofalu am ti. Fi'n gyrru di off i Liverpool ne London at pobl caredig i dysgu ti bod yn nyrs ne rhwbath. Cei di dim bod isia dim a fi talu popeth. Ti dod i'r Plas heno, housekeeper fi'n gwbod sut i bod yn garedig. Mi gnei di dod, Nel Davis, yn gnei di ? Ma trap fi wrth y drws i mynd a ti i'r Plas at housekeeper fi. Ti yn gneud dy hun yn parod i dod yn trap at housekeeper yn y munud a fi yn cael chat bychan â Doctor. (*A allan drwy'r dde.*)

MR. HARRIS (*daw i mewn o'r chwith*) : Nel bach, fi sy'n gorfod torri'r newydd i chi. Peidiwch a chyffroi : mae'ch tad wedi mynd.

NEL (*fel pe mewn breuddwyd*) : Wedi marw !

(*Cyfyd yn benisel ac arweinir hi allan ar y chwith, a syrth y llen ar y ddau yn cyrchu'n araf at y drws.*)

ACT IV.

Gweithdy'r Saer.

[*Gweler Act I. Cyfyd y llen ar* HARRI *yn curo hoelion i ddarn o bren, a'r* DOCTOR *yn dod i mewn o'r chwith.*]

DOCTOR : Gweithio'n galed, Harri ?

HARRI : Go lew, syr. Mae Mr. Harris y gweinidog a finnau am weithio'n hwyr heno er mwyn gorffen rhyw ddrysau a ffenestri sydd i fod yn barod erbyn diwedd yr wsnos.

DOCTOR : Wedi mynd i'w dê mae o rwan ?

HARRI : Ie, syr.

DOCTOR : Beth ydi dy farn di am dano fel jeinar ? Dyma ti wedi cael tri diwrnod o brawf arno erbyn hyn.

HARRI : Mae o wedi colli i law ar y grefft, ond mae'n hwbio mlaen dipyn gwell heddiw.

DOCTOR : Mae'n rhaid fod cwrs byd ers pan bu'n gneud gwaith jeinar ?

HARRI : Oes, mae chwech ne saith mlynedd, medde fo. Mae'n weinidog yma ers dros ddwy, a rhyw dair neu bedair blynedd yn y coleg at hynny.

DOCTOR : Patrwm o ddyn ydi o, wel di, ne fasa fo ddim yn gweithio'n rhad ac am ddim fel hyn yn lle Jared yr wsnos yma. Dyna beth ydi " practical Christianity " wyddost.

HARRI : Sut mae Jared Jones y pnawn ma, Syr.

DOCTOR : Gwael iawn, druan ; mae'n methu symud er dydd Llun.

(*Daw* IFAN WYN *a* HOPCYN *i mewn o'r dde.*)

HOPCYN : Sut mae Jared rwan, Doctor ?

DOCTOR : Digon gwael ydi o.

IFAN : Dydi o ddim yn anobeithiol ydi o ?

DOCTOR : Mae'n anodd deyd hyd yn hyn. Y perig ydi i'r dolur yma gyrraedd ei galon, ac wedyn mi fydd ar ben ar yr hen greadur.

IFAN (*gan eistedd yn bendrist ar focs*) : Mi rydw i'n methu byta na chysgu, na gweithio wrth feddwl am dano. Wn i ar y ddaear be ddaw ohono i os bydd yr hen gono annwyl farw.

HOPCYN : Mi rydw inna'n cael y drafferth fwya'n y byd i beidio crio fel babi. Mi fydd hanner y pentre ma wedi mynd os aiff Jared.

DOCTOR : Peidiwch a chymeryd golwg rhy ddifrifol ar y cês : fe all ddod drwyddi os medra i gadw'r drwg o'i galon o.

HOPCYN : Mae golwg go lew ar i wyneb o hefyd, Doctor ; wrth gwrs doedd fawr o scwrs i gael â fo.

DOCTOR : Un twyllodrus iawn ydi'r gwyneb. Wel, i newid y stori, go lew y gweinidog yn cymryd i le fo fel jeinar yntê ?

HOPCYN : Mwy na go lew—ardderchog !

IFAN : Ie, iechyd i'w galon o.

DOCTOR : Ydi o'n wir i fod o wedi cael galwad o eglwys fawr yn Lerpwl na ?

IFAN : Ydi nen tad ! Mae dwy ne dair o eglwysi mawr am i ddwyn o oddiarnom yn Seilo, rhen gnafon sâl.

DOCTOR : Aiff o ?

HOPCYN : Nac aiff, gobeithio'r annwyl.

DOCTOR : Wel, taswn i yn i le o, mi symudwn, a mi gadawswn chi fynd i'ch crogi yn Seilo ar ol y tro gwael naethoch chi â fo flwyddyn yn ol.

HOPCYN : Cyfeirio rydach chi at y ngwaith i a blaenoriaid eraill yn sefyll yn erbyn iddo briodi Nel Davis ?

DOCTOR : Ie, wrth gwrs.

HOPCYN : Chware teg i ninnau, Doctor ; doedd bron neb yn Seilo, ond Jared, druan, yn fodlon iddo briodi Nel Davis yr adeg honno.

IFAN : Heblaw hynny, mi fasa Mr. Harris wedi ei phriodi yn ein dannedd oni bae iddi wrthod yn bendant.

DOCTOR : Lol i gyd ! I wrthod o ddaru hi am y gwyddai hi mor groes oeddach chi i'r briodas, yr hen set wael. Ond wedi chi ddeall fod peth o waed

Scweiar y Plas yng ngwythiennau Dic Betsi, a bod y Scweiar wedi anfon Nel Davis i Lunden ar i gost i hun i gael dipyn o addysg, dyma chithau'n dechreu newid eich barn am dani'n araf. Ar y ngair i, rwyf bron a choelio y basach chi'n fodlon iddi fod yn wraig y gweinidog erbyn heddiw.

HOPCYN : Hawdd i chi siarad, ond mi wranta fod Nel Davis wedi codi yn eich barn chitha wedi i'r secrat ddod allan i bod hi'n rhyw berthyn pell i Mr. Blackwell.

IFAN : Dydw i'n malio run frwynen am i pherthynas hi â gŵr y Plas, ond mi gymra fy llw y bydd ychydig o ysgol yn Llunden yn siwr o ddofi dipyn arni, ac roedd eisia dofi gryn lawer arni.

HOPCYN : Oedd, nenor tad. Ymhle yn Llunden mae hi, Doctor ? Ryda ni bawb wedi gofyn i chi droion.

DOCTOR : Run ateb sy gen i : wn i ddim.

IFAN : Gwyddoch o'r goreu, ond mi gaiff Doctor balu celwydd yn ddi-gosb ; mi wyddoch chi a'r scweiar drwy'r misoedd ymhle mae hi, ond na ddeydwch chi ddim.

DOCTOR : Wel, mi wn ymhle mae hi'r funud ma.

Y DDAU : Ymhle ?

DOCTOR : I mewn yn tŷ yn tendio ar Jared.

IFAN : Gwarchod pawb, ydi hi yn y tŷ rwan ?

HOPCYN : Cellwar â ni rydach chi fel arfar ?

DOCTOR : Nage'n wir. Dysgu bod yn nyrs roedd hi yn Llunden, ac fe yrrais am dani i ddod i nyrsio Jared, ac mi wyddwn mai'r unig beth fasa'n dod a hi yma fasa clywed fod yr hen Jared mor wael. Mae hi'n leicio Jared erioed.

IFAN : Wel diain i, mi fydd gen i ofn mynd i weld Jared os ydi hi'n tendio arno.

HOPCYN : Wel, a deyd y gwir, mi fydda inna'n swil hefyd i gyfarfod â hi. Ond diolch i'r trugaredd mi gaiff Jared well siawns i wella os gwellith o.

DOCTOR : Dyda chi ddim yn dal dig at Nel Davis, gobeithio ?

HOPCYN : Na, ryda ni i gyd yn fwy cymedrol erbyn hyn yn ein syniad am dani, ond y pwnc ydi, beth ydi'i syniad hi am Ifan a finna, achos mi ŵyr mae ni'n dau oedd y ring-ledars yn i herbyn hi dros flwyddyn yn ol.

DOCTOR : Peidiwch a chyboli'n wirion, mi fydd yr eneth yn " all-right " â chi ar ol rhyw funud, a gobeithio y rhoith hi grafiad ne ddau i chi'ch dau. Ond rwan, does neb ond fi a'r sgweiar yn gwybod i bod hi wedi dod i nyrsio Jared, a pheidiwch ar un cyfri a deyd wrth Mr. Harris nes y daw o i wybod i hun. Harri, meindia di ar dy fywyd na ddeydi di ddim wrtho pan ddaw'n ol o'i dê.

HARRI : Dim perig i mi ddeyd, syr.

DOCTOR : Rwan mi awn i'r tŷ ein tri.

IFAN : Diaist, mae gen i dipyn o ofn i gwynebu hi. Dos di'n gynta Hopcyn.

HOPCYN : Na, ti ydi'r hyna, Ifan.

IFAN : Mae'n rhaid i ti gychwyn achos ti ydi'r pen blaenor. (*A'r tri allan ar y chwith, a dechreua* HARRI *guro'r hoelion. Yn y funud daw* MR. HARRIS *i mewn o'r dde, a thyn ei got a'i het yn barod i waith.*)

MR. HARRIS: Rwan, Harri! y troed gore mlaen. Orffennwn ni'r job yma erbyn diwedd yr wsnos ?

HARRI : Fe ddylem a ninnau'n gweithio'n hwyr fel hyn.

MR. HARRIS (*gan estyn ei freichiau'n ol a blaen*) : Pe cawn i'r breichiau ma i stwytho dipyn, mi drown ragor o waith drwy nwylo.

HARRI : Peth da ydi rhwbio dipyn o embrocation arnyn nhw cyn mynd i'r gwely, syr.

DOCTOR (*daw i mewn o'r chwith*) : Mi ddeuthoch yn ol o'ch tê, mi welaf.

MR. HARRIS : Do. Rwan, Harri ewch chitha i'ch tê. (*Gwisg* HARRI *ei got a'i gap ac â allan drwy'r dde.*) Sut mae Jared rwan, Doctor ?

DOCTOR : Canolig iawn. Rwyf newydd ddod a nyrs i dendio ar yr hen lanc er mwyn rhoi pob chware teg iddo wella os oes gwella i fod.

MR. HARRIS : Newydd ddod mae'r nyrs ?

DOCTOR : Ie. Pan gymrwyd Jared yn wael echdoe mi welais fod y cês yn un seriws, ac mi rois y peth o flaen y scweiar, ac mi ddeydodd wrtho i yn

y fan y basa fo'n talu am nyrs o'i boced i hun. Mi yrrais am dani ar unwaith ac mi ddoes a hi i'r tŷ rwan jest.

MR. HARRIS : Chware teg i'r hen scweiar, er na faddeuais i byth iddo am fynd a Nel Davis i ffwrdd. Roedd eich bysedd chitha yn y bwti hwnnw, a ddwedwch chi na'r scweiar ddim wrtho i ymhle mae hi yn Llunden.

DOCTOR : Does neb ond y scweiar ŵyr a phob tro y gofynnaf iddo am "address" Nel Davis, "Fi wedi rhoi word of honour fi i Nel Davis i beidio deyd," medda fo.

MR. HARRIS : Dyna'i gân o i minnau hefyd, ond chreda i byth na wyddoch chitha hefyd.

DOCTOR : Peth difrifol ydi bod yn anghredadun Mr. Harris. Gyda llaw, mae'r nyrs eisia coed tân, ac mi ddaw yma'n y funud i gael rhai. Cloben o Saesnes hyll ofnadwy ydi hi, doedd dim Cymraes i'w chael, mae'n debig. Wel, pnawn da.

MR. HARRIS : Ac i chitha. (*A'r* DOCTOR *allan i'r dde a chwilia* MR. HARRIS *am goed tân o dan y bwrdd, a tra'n chwilio dan y bwrdd, daw* NEL *i mewn o'r chwith.*)

NEL : Harri, Harri, ymhle rwyt ti ?

MR. HARRIS (*gan neidio ar ei draed*) : Nel !

NEL (*gan gilio'n ol at y drws*) : O'r tad ! Chi sydd yma ? Mi ddeydodd y Doctor ffals yna mai Harri bach oedd yma.

MR. HARRIS : Mi ddeydodd wrtho inna mai cloben o Saesnes hyll oeddach chitha.

NEL : Be ydach chi'n neud yn y gweithdy ma ? Ydach chi wedi gadael y weinidogaeth a throi'n jeinar ?

MR. HARRIS : Na, cymryd lle Jared rydw i er mwyn ennill dipyn o brês i'r hen greadur tlawd.

NEL : Go lew chi. Chês i ond prin olwg ar Jared eto. Mae'n edrach yn rhyfedd o dda o ran i liw hefyd, ond mae'r Doctor yn ofni am i galon. O ! mi rown lawer am i weld o allan o berig. Dyna'r unig beth nath i mi ddod yn ol i'r lle ma ; rwyn ffond o nghalon o Jared.

MR. HARRIS : O Nel, beth am dana i ? Rydach chi wedi bod o flaen fy llygaid bob dydd ar hyd y misoedd, ac er holi a chwilio, chawn i ddim gwybod ymhle roeddach chi, a dyma chi cystal a deyd na fasach chi byth yn dod yn ol yma er mwyn neb ond Jared.

NEL : Waeth i ni heb siarad am yr hen bethau mae popeth drosodd erbyn hyn.

MR. HARRIS : Drosodd ? Nag ydyn ! (*Cymer afael yn ei dwylo.*) Nel bach, dydi popeth ddim drosodd ? Mi ddaruch gadw o ngolwg am flwyddyn, na wyddwn i ar y ddaear sut i ddod atoch, ond dyma chi'n ol o'r diwedd, ac nid ar chware bach y gollynga i nghafael y tro yma. Mi priodwch fi rwan, yn newch chi Nel ?

NEL : Rwyf wedi priodi !

MR. HARRIS (*gan ollwng ei dwylo*) : Beth ? Wedi priodi ? O, wel, dyna hi ar ben arna i am byth. (*Gwisg ei got yn brudd a chychwyna tua'r drws i'r dde.*)

NEL : O, Mr. Harris ! rydach chi'n mynd heb ddeyd "lwc dda," ac heb gymaint a gofyn pwy briodais i.

MR. HARRIS (*saif wrth y drws yn benisel, â'i gefn tuag ati*) : Pwy ddaru chi brodi ?

NEL : Rwyf wedi priodi nghrefft !

MR. HARRIS (*gan droi ac edrych arni am funud*) : Nel ! (*Rhed ati a chofleidia hi.*)

NEL : Rhoswch funud, da chi. Beth yda ni well o fynd ymlaen fel hyn ? Nel Dic Betsi ydw i o hyd i'r bobl yma.

MR. HARRIS : Dyn a'ch helpo mae pethau wedi newid yn ddirfawr er pan welais chi ddiwedda.

NEL : Newid ymha ffordd ?

MR. HARRIS : Wel, i gychwyn, mae fy lle i yn Seilo'n sicrach nag erioed. Hyd yn oed pe safai Seilo yn erbyn i ni briodi, mae gen i eglwys ne ddwy'n barod i nerbyn i fory nesa, ac mi ŵyr pobol Seilo hynny. Does dim gwell i'w ddal wrth ben eglwys go gyndyn na phistol galwad o eglwys arall. Ond y gwir ydi, mae Seilo wedi newid ei barn am danoch.

NEL : Pam ? Run Nel ydw i heddw yn nillad nyrs ag oeddwn i flwyddyn yn ol ym mwthyn Pantglas.

MR. HARRIS : Nage, Nel bach ; yr un yn union ydach chi i mi wrth gwrs, ond i'r bobol sydd yma, merch ifanc ydach chi erbyn hyn, wedi bod dan addysg yn Llunden—Nyrs Nel Davis mewn dillad glas, sy'n gweddu iddi'n ofnatsan las—Nel Davis sy'n perthyn o bell i Mr. Blackwell y Plas. O mae pethau wedi newid yn rhyfedd y misoedd diwedda ma.

NEL : Mi fum yn siarad rwan ag Ifan y crydd a Hopcyn y siop—y ddau oedd fwya'n fy erbyn. Mae'r ddau yn tŷ rwan.

MR. HARRIS : Fuoch chi wir ? Sut roedda nhw'n behafio ?

NEL : Swil iawn oedd y ddau am dipyn, a mi rois snap ne ddwy iddyn nhw er mwyn rhen amser gynt. Ond eisia cymodi oedd arnyn nhw'n amlwg, a mi doddais dipyn bach atyn nhw yn y diwedd.

MR. HARRIS : Dyna fo eto ; mi wyddwn fod Ifan a Hopcyn wedi newid cryn lawer ar i barn. Y gwir yw, fe allwn briodi fory cyn belled ag y gwn i.

NEL : Priodi fory ! Be sy haru'r dyn ?

MR. HARRIS : Mi wyddoch o'r goreu be ydi meddwl i ; does dim ar y ffordd rwan i ni briodi pan fynnwn. Ond cyn mynd ymhellach mae arnoch chi ddyled o flwyddyn o gusanau i mi. Beth pe baech

yn clirio rhyw gant y funud ma, a chyn diwedd y dydd mi gynhaliwn Jiwbili i glirio'r holl ddyled.

NEL : O'r annwyl ! Na, chi ddeydodd rhywdro mae gwell oedd gadael i ran o'r ddyled sefyll ar gapel er mwyn rhoi gwaith i'r blynyddoedd i ddod ; os cadwch chi Jiwbili heddyw, fydd gynno chi ddim i neud y misoedd nesa. Ond beth am Marged ?

MR. HARRIS : Mae Marged yn fwy awyddus na neb am gymodi â chi.

(*Daw* IFAN *a* HOPCYN *i mewn o'r chwith.*)

HOPCYN : Wel, Mr. Harris, rwyn meddwl fod y Nyrs wedi hanner maddeu i Ifan a fi am yr hyn a fu—ond go oer oedd hi am dipyn, yntê Ifan ?

IFAN : Ie'n siwr, mi roddodd bum munud go boenus i ni'n dau, ond yn ol ein haeddiant hwyrach. Nyrs annwyl, gwellwch yr hen Jared os oes modd.

HOPCYN : Ie'n wir—mae'r Doctor na wedi torri'n calon ni yn y pentre wrth ddeyd fod Jared mor beryglus o wael.

NEL : Mi rydw i'n fwy digalon na neb ohonoch. Mi ellwch fod yn siwr y gna i ngoreu er mwyn Jared, yr hen greadur annwyl.

MR. HARRIS : Tybed fod y Doctor yn deall i afiechyd o ; mi wariwn y ddimeu ola i gael specialist pe gwyddwn i y bae hynny o ryw lês.

MARGED (*daw i mewn o'r dde*) : Eifion ! mi alwodd y Doctor acw rwan i ddeyd fod arnat eisia ngweld i.

MR. HARRIS : Wel, dyna rôg ydi'r Doctor na. Rwyt yn drydydd iddo chware ei gastiau arno. Ond rwyt wedi dod i'r tic er hynny. Wel di'r Nyrs sy wedi dod i dendio ar Jared.

MARGED (*gan syllu arni*) : Nel Davis ! (*A ymlaen ati yn swil gan estyn ei llaw iddi.*) Newch chi ysgwyd llaw â fi ac anghofio ?

NEL (*cusana hi unwaith neu ddwy*) : Soniwn ni byth eto am dano, dyna fi wedi cau'r drws am byth ar yr hyn a fu.

HOPCYN : O, Nyrs Davis, newch chi ddim cau'r drws yn yr un dull dymunol efo Ifan a finna ? (*Daw* DAFYDD ELIS *i mewn o'r dde.*) A dyma un arall y gwn i'n sicr fasa'n leicio yn i galon i chi gau'r drws ar y gorffennol run ffordd ag y gwnaethoch chi a Miss Marged Harris rwan. Dyma Nyrs Davis sydd wedi dod o Lundain i dendio ar yr hen Jared. Mi sgydwch law â fo, yn newch chi ?

NEL : Ar ol maddeu i'r ddau droseddwr mwya, hawdd maddeu i un oedd dipyn yn fwy pleidiol i mi nag Ifan Wyn a Hopcyn. (*Estynna'i llaw i* DAFYDD.) Wel, dyna fi'n ffrindia â'r sêt fawr i gyd rwan.

ELIS : Mae'n dda gen i gael cyfle i gymodi. Mi gaiff Jared chware teg perffaith efo chi—Sut mae o ?

NEL : Roedd y Doctor yma chydig yn ol, a gwael iawn oedd o yn i gael o. Dydw i wedi cael

fawr amser â fo eto, does fawr ers pan ddois i yma.

HOPCYN : Un peth sy'n torri ar lawenydd y cymodi ma, a hwnnw ydi na fasa Jared yma.

IFAN : Paid, Hopcyn bach, paid a gneud dyn yn fwy digalon nag ydi o. O'r tad, gobeithio daw o uwchben i draed unwaith eto.

(*Daw* JARED JONES *i mewn o'r chwith yn nillad saer nes brawychu pawb.*)

JARED : Rydw i wedi blino bod yn sâl a'r Nyrs ddim yn tendio arna i.

(*Daw* NEL *ac* EIFION *a* HOPCYN *o'i gylch yn bryderus gan dybio ei fod wedi colli arno'i hun.*)

NEL : O, Jared Jones, dowch yn ol efo ni i r tŷ ; wn i ddim beth ddwedith y Doctor am hyn ; mae'n enbyd i chi fod yn y fan yma.

JARED : Nel Davis, mi rydw i cyn iached a'r gneuen ; fum i rioed mor iach.

HOPCYN : Tyrd i'r tŷ i dy wely, Jared bach, mi awn a thi rwan. (*Ymaflant ynddo er mwyn ei gael yn ol i'r tŷ.*)

JARED : Howld on ! Be sy haru chi ? Diain i, mi gwela hi ! Rydach chi'n meddwl mod i o ngho. Does dim y mater arna i. Doctor Huws ! dowch yma, da chi i sponio petha i'r Philistiaid ma.

DOCTOR (*daw i mewn o'r chwith gan chwerthin*) : Gadewch lonydd i'r dyn—does dim y mater ar Jared, mae o cyn iachad ag afal Awst.

MR. HARRIS (*yn ddigllon*) : Doctor Huws ! rwyn credu y dylech chi ddeyd be ydi ystyr y cellwair yma ; mae'n amlwg mai chi ac nid Jared sydd i'w feio.

JARED : Ruwd annwyl, rydach chi'n edrach yn ddig ofnadwy ar y Doctor—mae pawb ohonoch chi yn edrach yn ddig. Myn gafr ! Choelia i ddim na fasach chi'n leicio ngweld i'n sâl bron a marw er gwaetha'ch holl siarad y tri diwrnod diwedda ma. Mae'r esboniad mor eglur a thrwyn Ifan y crydd, ac mi ddylech chi, Mr. Harris, o bawb neidio i ben y gweithdy pan glywch chi o. Dyma fo ! tric o eiddo'r Doctor a'r Scweiar a finna i gael Nel Davis yn ol i'r pentre ma.

NEL (*â'i dwylo am ei wddf*) : Rhag cwilydd i chi Jared Jones ! Faddeua i byth i chi !

JARED (*gan ddal ei breichiau*) : Mi gadwa'r ddwy fraich yma lle ma nhw. Rwan, frodyr a chwiorydd, a blaenoriaid, doedd dim yn bosib cael yr eneth ma yn ol i'r pentre mewn un ffordd, er i'r Scweiar a'r Doctor neud pob cynnig, gwrthod roedd hi, a gwaeth na'r cwbl fe rybuddiodd y ddau i beidio deyd wrth Mr. Harris y gweinidog ymhle roedd hi yn Llunden. Wel, i fynd ymlaen, be nath y Doctor ma, ac un melltigedig o gastiog ydi o ; be nath o ond gofyn i mi ddydd Sadwrn fuaswn ni'n mynd yn sâl iawn dydd Llun, dydd Llun diweddaf

wrth gwrs, ac mi ês yn sâl iawn fel y gwyddoch, drwy ordors Doctor.

IFAN : Yr hen gena drwg gen ti.

JARED : Paid a porthi mhregeth i, Ifan bach, achos ma dy lais di yn y ngyrru oddiar y rêls. Rwan mi wyddai'r Doctor a'r Scweiar fod Nel yn fy leicio i yn enbyd iawn (peidiwch a phinsio, Nel) a'r funud y clywodd hi mod i'n sâl, dyma hi'n ysgwyd llwch Llunden oddiar ei sgidia ac yn carlamu yma yn y trên i dendio arna i. Wel, dyma hi ! yr eneth glysa yn y wlad—roedd yn werth i mi gymryd arna fod yn wael er mwyn i chael hi yma i'r pentre. Rwan am y gusan na, Nel Davies. (*Cusanna hi.*) Mi nillais hi'n deg.

HOPCYN : Y corgi digywilydd ! a fi ac Ifan a pawb bron a thorri'n calon rhag ofn iti farw. Wyddech chi am y tric Mr. Harris ?

MR. HARRIS : Dim. Ydach chi'n meddwl y baswn i'n troi yn jeinar yn lle Jared Jones pe baswn i'n gwybod ?

DOCTOR : Na doedd neb yn gwybod ond y Scweiar a Jared a finnau. Rwyn meddwl y dylai Mr. Harris fod yn fodlon i mi gael un gusan gan Nyrs Davis, achos fi ddaru gynllunio iddynt ddod at i gilydd.

JARED : Howld, Doctor, os rhoith hi gusan i chi, mi ddaw holl brigêd y blaenoriaid yma i fyny am gusan yn cael eu harwain gan General Ifan Wyn.

Rwan, Mr. Harris, dowch yma a safwch ar y llaw chwith yma ; safwch chitha ar y dde Nel Davis, ochr yn ochr a fo. Yn gymaint a bod y ddau hyn eisio priodi â'i gilydd, a chan eu bod yn caru eu gilydd y tuhwnt i bob rheswm, rwyf fi, Jared Jones, Jeinar a Carpentar, ar ran pawb sydd ma yn rhoi caniatâd iddynt i fynd ymlaen at eu diwrnod priodas. Dyna fi wedi cynnig ac eilio, pawb sydd yr un farn, i fyny â'ch dwylo. (*Cyfyd pawb eu dwylo.*) Welwch chi, Mr. Harris, fe gewch yrru'r gostegion priodas i mewn pan fynnoch chi.

MR. HARRIS (*wrth* NEL) : Dyma nhw wedi'n gollwng ni'n dau rwan o'r groesffordd, ond chi bia'r clod o'u perswadio nhw.

NEL : O, nage, nid fi, ond (*annela ei bys at ei wyneb*) y pistol galwad hwnnw.

DIWEDD.

E.P.C. New List of Plays & Dramas
IN ENGLISH AND WELSH.

NOSON O FARRUG. (*R. G. Berry.*) 1/- net. post free 1/2.

Y PWYLLGOR. (*D. T. Davies.*) 1/- net, post free 1/2.

YR HEN DEILIWR. (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net, post free 1/2.

THE GREAT EXPERIMENT. (*Naunton Davies and Stanley Drewitt.*) 2/- net, post free, 2/3.

THOSE WHO WAIT. (*Ernest Cove.*) 1/- net, post free 1/2.

LLWYBRAU ANRHYDEDD. (*D. Derwenydd Morgan.*) 2/- net, post free 2/3.

RYBECA. (*Gwili.*) 2/- net, post free 2/3.

TEN SHORT PLAYS—Cyngor Plwy'—Trwbwl yn Wrecsam—Nith Dic Shon Dafydd—Ar Leave—Natur Plentyn—Byddin y Plant—Dyfodol Plentyn—Y Milwyr ar Brawf—Cosbi Dafydd—Yr Hen Siopwr. 2/- net, post free 2/3.

YR HEN SCWLIN. (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net post free 1/2.

DAFYDD AP GWILYM. A Romantic Cantata (*Harry Evans.*) Solfa, 1/-, Old Notation 3/- net.

PLANT Y PENTREF. Welsh School Play with music. Old Notation, 4/- net, words only 2d. net.

Licences for Public Performance to be obtained from

The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.

E.P.C. New List of Plays & Dramas
IN ENGLISH AND WELSH.

OWAIN GLYNDWR. Nos. 1 to 7, Short Plays for Schools. 3d. each net. Nos. 1 to 7, bound together 1/6 net.

Y FERCH YNGHYFRAITH. (*R. G. Berry.*) 1/- net, post free 1/2 net.

HANNAH COMES ROUND. (*G. J. Griffith.*) 1/- net, post free 1/2 net.

CASTELL MARTIN. (*D. T. Davies.*)

FFROIS. (*D. T. Davies.*)

THE SECOND SON. (*Dr. Naunton Davies.*) 2/6 net.

THE EPIDEMIC. (*Dr. Naunton Davies.*) 1/3 net.

A MONOLOGUE FOR ME. (*Dr. Naunton Davies.*) 1/3 net. *

THE CONVERSION. (*Dr. Naunton Davies.*) 1/3 net.

THE SCHEMER. (*Dr. Naunton Davies.*) 2/6 net.

THE ARROGANCE OF POWER. (*Dr. Naunton Davies.*) 2/6 net.

THE HUMAN FACTOR. (*Dr. Naunton Davies.*) 2/6 net.

THE CRASH. (*Dr. Naunton Davies.*) 2/6 net.

Licences for Public Performance to be obtained from

The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.